

Pennod 5: Darpariaethau rhagarweiniol

CYFLWYNIAD

- 5.1 Rhestrodd Pennod 5 o'r Papur Ymgynghori nifer o ddarpariaethau cyffredinol sy'n sail i'r ffordd y mae'r system gynllunio yn gweithredu, ac aeth yn ei blaen i drafod dau gategori o ddarpariaethau o'r fath, sef:
- 1) p'un a oes angen cynnwys datganiad penodol yn y Bil Cynllunio ynglŷn â diben y system gynllunio;
 - 2) sut y gellir rhesymoli a symleiddio'r amrywiol ddyletswyddau statudol sy'n gymwys ar hyn o bryd wrth arfer swyddogaethau cynllunio;
 - 3) y darpariaethau sy'n ymwneud â'r ffordd y gweinyddir y system gynllunio.
- 5.2 Yn y bennod hon o'n Hadroddiad, rydym yn ystyried sut y gellir rhesymoli a symleiddio'r amrywiol ddyletswyddau statudol yn gyntaf; yng ngoleuni ein hystyriaeth o hynny, rydym yn esbonio ein casgliad nad oes angen datganiad penodol o ddiben y system gynllunio. Yn olaf, rydym yn troi at y ffordd y gweinyddir y system ac yn gwneud rhai argymhellion ar gyfer symleiddio'r darpariaethau o ran gweinyddu'r system.

EGWYDDORION SY'N SAIL I'R COD CYNLLUNIO

Dyletswyddau statudol sy'n gymwys wrth arfer swyddogaethau cynllunio

- 5.3 Ar hyn o bryd, mae dwy egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud yn benodol â chynllunio yng Nghymru. Yr egwyddor gyntaf, sydd wedi bodoli ers i'r system gynllunio gael ei chyflwyno 70 mlynedd yn ôl, yw dyletswydd penderfynwyr i roi sylw i'r cynllun datblygu, i'r graddau y mae'n berthnasol, ac i bob ystyriaeth berthnasol arall.
- 5.4 Ceir rhai ystyriaethau perthnasol penodol hefyd a nodir mewn un ffordd neu'r llall: gwarchod neu wella adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth; defnyddio'r Gymraeg; a pholisi Llywodraeth Cymru.
- 5.5 Mae'r ail egwyddor gyffredinol, a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, yn ymwneud â datblygu cynaliadwy. Mae Adran 2 o Ddeddf Cynllunio 2015 yn darparu bod yn rhaid i unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â llunio'r cynllun datblygu neu reoli datblygu gael ei harfer fel rhan o ddatblygu cynaliadwy yn unol â'r Ddeddf Llesiant.
- 5.6 Yn ogystal â'r ddwy egwyddor gyffredinol hynny, ceir nifer o ddyletswyddau cyffredinol mewn deddfwriaeth arall a fydd yn berthnasol i ryw raddau o leiaf wrth arfer swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth gynllunio.

- 5.7 Yn ein Papur Ymgynghori, yn unol â hynny, gwnaethom nifer o awgrymiadau ynglŷn â dyletswyddau penodol, a'r ffordd orau o ymdrin â hwy. Cafodd y rhain dderbyniad da ar y cyfan gan yr ymgynghoreion, fel y nodir isod mewn perthynas â phob cwestiwn penodol yn yr Ymgynghoriad, ond daeth rhai pryderon mwy cyffredinol i'r golwg, gan beri i ni adolygu mater dyletswyddau statudol yn fwy cyffredinol, o ran deddfwriaeth gynllunio ac mewn deddfwriaeth gysylltiedig arall.

Dyletswyddau statudol: y Deddfau Cynllunio

Y cynllun datblygu

- 5.8 Yn gyntaf, fel y nodwyd yn y Papur Ymgynghori,¹ mae amrywiol sefyllfaoedd lle mae awdurdod cynllunio yn arfer swyddogaeth benodol ar ôl rhoi sylw i'r cynllun datblygu, i'r graddau y mae'n berthnasol, ac i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, sef penderfynu ar gais cynllunio, gosod amodau sy'n cyfyngu ar barhad caniatâd cynllunio, diddymu neu addasu caniatâd, gwneud gorchymyn dirwyn i ben, a chyhoeddi hysbysiad gorfodi.²
- 5.9 Mae dyletswydd debyg ar Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar geisiadau a alwyd i mewn, neu wrth benderfynu ar apeliadau.³ Ond nid oes y fath ddyletswydd arnynt wrth osod amodau sy'n cyfyngu ar barhad caniatâd cynllunio, neu wrth arfer eu pwerau diodyn i ddiddymu neu addasu caniatâd, gwneud gorchymyn dirwyn i ben, neu gyhoeddi hysbysiad gorfodi.⁴
- 5.10 Mae'n rhaid i banel cynllunio strategol, wrth baratoi cynllun datblygu strategol, roi sylw i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, y cynllun strategol ar gyfer unrhyw ardal gyffiniol, a'r cynllun datblygu lleol ar gyfer pob ardal o fewn ardal y panel (ond nid ar gyfer unrhyw ardal gyfagos).⁵ Mae'n rhaid i awdurdod cynllunio, wrth baratoi cynllun datblygu lleol, roi sylw i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r cynllun strategol ar gyfer yr ardal gyfagos (ond nid y cynllun lleol ar gyfer unrhyw ardal gyfagos).⁶ Mae'n rhaid i gynlluniau lleol gydymffurfio'n gyffredinol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac unrhyw gynllun strategol ar gyfer yr ardal.⁷
- 5.11 Pan fo awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i'r cynllun datblygu wrth wneud unrhyw benderfyniad, byddant yn gwneud y penderfyniad hwnnw yn unol â'r cynllun oni fydd ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall.⁸

¹ Papur Ymgynghori, para 5.16.

² Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 70(2)(a),(c), 91(2), 92(6), 97(2), 102(1), 172(1)(b), Atod 9, para 1(1).

³ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 70(2), 77(4)(a), 79(4)(a).

⁴ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 100, 104, 182, Atod 9, para 11.

⁵ Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 60I(6), a fewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

⁶ Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 62(5), a ddiwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

⁷ Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 62(3A), a ddiwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

⁸ Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 38(6).

Yr iaith Gymraeg

- 5.12 Mae dyletswydd ar awdurdodau cynllunio i roi sylw i unrhyw ystyriaethau perthnasol sy'n ymwneud â'r Gymraeg wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio;⁹ ac mae dyletswydd debyg ar Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar geisiadau a alwyd i mewn ac apeliadau.¹⁰ Ond nid yw hyn yn newid y pwys sydd i'w roi ar unrhyw ystyriaeth berthnasol arall.¹¹
- 5.13 Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, wrth baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, gynnal arfarniad o'i gynaliadwyedd. Yn yr un modd, mae'n rhaid i gorff perthnasol sy'n llunio cynlluniau, wrth baratoi cynllun strategol neu gynllun lleol, gynnal arfarniad o'i gynaliadwyedd. Ym mhob achos, mae'n rhaid i arfarniad o'r fath gynnwys asesiad o'i effeithiau tebygol ar y defnydd o'r Gymraeg.¹²
- 5.14 Fodd bynnag, nid oes dyletswydd o'r fath ar awdurdodau cynllunio na Gweinidogion Cymru wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau cynllunio eraill – megis cymeradwyo manylion sy'n ofynnol o dan amod ar ganiatâd cynllunio, cymryd unrhyw gam gorfodi heblaw cyhoeddi hysbysiad gorfodi, gwneud penderfyniadau mewn perthynas â hysbysebion a choed a warchodir, arfer pwerau sy'n ymwneud â thir gwastraff, a chaffael tir at ddibenion cynllunio.

Yr amgylchedd hanesyddol

- 5.15 Bydd awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod adeilad rhestredig, ei leoliad a'i nodweddion arbennig wrth roi cydsyniad adeilad rhestredig neu ganiatâd cynllunio.¹³ Bydd awdurdodau yn rhoi sylw (ond nid sylw arbennig) i ddymunoldeb gwarchod nodweddion o ddiddordeb arbennig, ac adeiladau rhestredig, yn enwedig, wrth gaffael a gwaredu tir – ond nid oes dyletswydd debyg yn gymwys pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau o'r fath.¹⁴ Ac mae'n rhaid i awdurdodau a Gweinidogion Cymru roi sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth wrth arfer unrhyw swyddogaethau cynllunio.¹⁵
- 5.16 Nid oes unrhyw ddyletswyddau statudol ar awdurdodau cynllunio na Gweinidogion Cymru i roi sylw i adeiladau rhestredig wrth gyflawni unrhyw swyddogaethau eraill o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, nac unrhyw swyddogaethau o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Ac nid oes unrhyw ddyletswyddau tebyg o dan y Deddfau Cynllunio wedi'u gosod ar bersonau neu gyrff eraill y mae ganddynt amrywiol swyddogaethau i'w cyflawni, yn enwedig fel ymgylgoreion.

⁹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 70(2)(aa).

¹⁰ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 70(2), 77(4)(a), 79(4)(a).

¹¹ Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, a 31(4).

¹² Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adrannau 60B(2), 60I(8), 62(6A), a fewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

¹³ Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adrannau 16(2), 66(1).

¹⁴ Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, a 66(2).

¹⁵ Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, a 72(1).

5.17 O'r dadansoddiad uchod, rydym nodi'r canlynol:

- 1) mae pob un o'r dyletswyddau statudol presennol wedi'u gosod naill ai ar awdurdodau cynllunio neu ar Weinidogion Cymru, neu'r ddau;
- 2) gall fod dyletswydd i "have special regard", "pay special attention", neu "have regard" i'r amrywiol faterion;
- 3) nodir y swyddogaethau y maent yn gymwys iddynt yn benodol;
- 4) nid yw baich y dyletswyddau hynny yn gyson.

Dyletswyddau statudol: deddfwriaeth gysylltiedig arall

5.18 Mae nifer o statudau cysylltiedig yn gosod dyletswyddau ar amrywiol categorïau o gyrff cyhoeddus. Rydym yn eu hystyried yn y drefn y cawsant eu cyflwyno gyntaf.

5.19 Mae adran 11 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 yn creu dyletswydd i roi sylw i ddymunoldeb gwarchod harddwch naturiol ac amwynder cefn gwlad. Mae'r ddyletswydd wedi'i gosod ar Weinidogion, adrannau'r llywodraeth, a chyrrff cyhoeddus wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â thir. Mae cyrrff cyhoeddus yn cynnwys unrhyw awdurdod lleol neu ymgymerydd statudol, ac unrhyw gorff statudol nid er elw sy'n gweithredu er mwyn gwella unrhyw le neu ddarpariaeth unrhyw wasanaeth.¹⁶ Nid oes diffiniad o ymgymerydd statudol.

5.20 Mewnosododd adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 adran 11A i Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.¹⁷ Mae hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau perthnasol, wrth arfer unrhyw swyddogaethau, i roi sylw i warchod a gwella harddwch naturiol [etc] parciau cenedlaethol, a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu nodweddion arbennig. Ystyr awdurdodau perthnasol yw Gweinidogion, ymgymerwyr statudol, y rhai sy'n dal swydd gyhoeddus, awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau cymuned) ac awdurdodau parciau cenedlaethol. Nid oes diffiniad o ymgymerydd statudol yma ychwaith.

5.21 Mae adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar amrywiol awdurdodau i arfer eu hamrywiol swyddogaethau o ran rhoi sylw i'w heffaith debygol ar drosedd ac anhrefn. Mae'r awdurdodau dan sylw yn cynnwys amrywiaeth eang o awdurdodau lleol a chyrrff tebyg, gan gynnwys awdurdodau parciau cenedlaethol, ond nid cynghorau cymuned nac ymgymerwyr statudol. Gall Gweinidogion Cymru estyn y rhestr o awdurdodau.

5.22 Mae adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod ar unrhyw awdurdod perthnasol sy'n arfer unrhyw swyddogaeth mewn perthynas ag ardal o harddwch naturiol eithriadol (AHNE) ddyletswydd i roi sylw i ddiben gwarchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE. Mae i awdurdod perthnasol yr un ystyr ag yn adran 11A o Ddeddf 1949 (uchod), ond mae i ymgymerydd statudol yr un ystyr ag yn Rhan 11 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

¹⁶ Deddf Cefn Gwlad 1968, a 49.

¹⁷ Yn gymwys yng Nghymru drwy a 4A o Ddeddf 1949.

- 5.23 Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn creu dyletswydd i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cydberthnasau da. Mae'r ddyletswydd wedi'i gosod ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, a pherson sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus. Mae diffiniadau cynhwysfawr o'r term awdurdodau cyhoeddus yn Atodlen 19 i'r Ddeddf, sy'n cynnwys adrannau'r Llywodraeth (heblaw'r gwasanaethau diogelwch, yr SIS a GCHQ), Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, ac is-gwmnïau Gweinidogion Cymru. Mae hefyd yn cynnwys awdurdodau lleol,¹⁸ awdurdodau parciau cenedlaethol, corfforaethau datblygu trefol, ac amrywiaeth eang o gyrff sy'n weithredol mewn amrywiol feysydd o fywyd cyhoeddus (megis y lluoedd arfog, darlledwyr, awdurdodau iechyd, rheoleiddwyr, yr heddlu, a gweithredwyr trafnidiaeth), ond nid ymgymrwyr statudol.
- 5.24 Mae adran 3 o Ddeddf Llesiant 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Ystyr "corff cyhoeddus" at y diben hwn yw Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau tân ac achub, amrywiol gyrff iechyd, a phum corff cenedlaethol arall.¹⁹ Gall Gweinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad hwnnw.²⁰
- 5.25 Yn olaf, mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. Nid yw hyn yn benodol yn gymwys i arfer swyddogaethau gan CThEM na swyddogaethau barnwrol gan y llysoedd. Ystyr "awdurdod cyhoeddus" at y diben hwn yw Gweinidogion y Goron, Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol, awdurdodau cynllunio, paneli cynllunio strategol, personau sy'n dal swydd gyhoeddus, ac ymgymrwyr statudol (yn unol yn fras â'r diffiniad ohonynt yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990).
- 5.26 O'r dadansoddiad uchod, rydym nodi'r canlynol:
- 1) gosodir pob un o'r dyletswyddau uchod ar awdurdodau cyhoeddus mewn amrywiol gategoriâu penodol;
 - 2) nid yw graddau'r categorïau perthnasol yn yr amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth yr un fath o bell ffordd – yn enwedig, mewn perthynas ag ymgymrwyr statudol;
 - 3) mae natur y ddyletswydd yn amrywio rhwng rhoi sylw, a rhoi "sylw dyledus" i amrywiol faterion;
 - 4) yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r dyletswyddau yn ymwneud â chyflawni unrhyw swyddogaeth gan y corff dan sylw o dan unrhyw ddeddfwriaeth, fel nad yw'r swyddogaethau wedi'u nodi'n benodol.

¹⁸ Ond nid cynghorau cymuned.

¹⁹ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a 6.

²⁰ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a 52.

- 5.27 Mae deddfwriaeth arall yn gosod dyletswyddau amgylcheddol cyffredinol ar gategoriâu penodol o gyfleustodau – megis ymgymrwyr dŵr, cyflenwyr trydan, a gweithredwyr telathrebu – wrth lunio cynigion.²¹

Dyletswyddau mewn cyfraith gyffredin: a'r holl ystyriaethau eraill

- 5.28 Rydym wedi nodi uchod fod dyletswydd gyfyngedig ar awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru i roi sylw i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.²² Mae hyn yn ategu'r ddyletswydd a osodir ar unrhyw gorff cyhoeddus (ni waeth sut y caiff y term ei ddiffinio) o dan gyfraith gyffredin, i ystyried unrhyw faterion perthnasol, ac anwybyddu unrhyw faterion amherthnasol, wrth gyflawni swyddogaeth o dan unrhyw ddeddfwriaeth.²³

Y DDYLETSWYDD I ROI SYLW I'R CYNLLUN DATBLYGU

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil i'r perwyl bod yn rhaid i gorff cyhoeddus sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod roi sylw i'r cynllun datblygu, i'r graddau y mae'n berthnasol i arfer y swyddogaeth honno; a bod yn rhaid iddo arfer y swyddogaeth honno yn unol â'r cynllun oni noda ystyriaethau perthnasol fel arall (Cwestiwn 5-1 o'r Ymgynghoriad).

Cynnig i ehangu'r ddyletswydd

- 5.29 Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd bod y ddyletswydd i roi sylw i'r cynllun datblygu yn gymwys i amrywiaeth eang o swyddogaethau arwyddocaol o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ond nad yw'r rhestr o'r swyddogaethau hynny yn gynhwysfawr o bell ffordd.²⁴
- 5.30 Mewn gwirionedd, caiff llawer o'r pwerau hynny eu harfer gan awdurdodau cynllunio o ran y cynllun datblygu, i'r graddau y mae'n cynnwys unrhyw bolisiau sy'n berthnasol. Er enghraifft, os bydd awdurdod yn ystyried telerau rhwymedigaeth gynllunio arfaethedig o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, neu gymryd amrywiol gamau gorfodi, neu dynnu hysbysiad gorfodi a gyhoeddwyd yn ôl, mae bron yn anochel y bydd yn rhoi sylw i ddarpariaethau'r cynllun datblygu. Ar y llaw arall, os yw'n ystyried cais am dystysgrif cyfreithlondeb, ni fydd y cynllun datblygu yn berthnasol.²⁵
- 5.31 Nodwyd gennym hefyd mai dim ond pan gaiff unrhyw un o'r amrywiol swyddogaethau ei arfer gan awdurdod cynllunio (ac mewn rhai achosion, Gweinidogion Cymru), ac

²¹ Papur Ymgynghori, para 5.115.

²² Gweler **paragraffau 5.8 i 5.9**.

²³ *Associated Provincial Picture Houses v Wednesbury Corporation* [1948] 1 KB 223, CA, yn unol â'r Arglwydd Greene MR ar dud 229; gweler hefyd *Padfield v Minister of Agriculture, Fisheries and Food* [1968] AC 997, HL, yn unol â'r Arglwydd Reid ar dud 1030, a *R v Alconbury Developments Ltd v Secretary of State* [2003] 2 AC 295 yn [50].

²⁴ Gweler y Papur Ymgynghori, para 5.20.

²⁵ Yn ddarostyngedig i'r penderfyniad yn *Richmond-upon-Thames v Secretary of State* [2002] 2 PLR 115 (gweler **para 7.34**). Gweler y Papur Ymgynghori, para 5.24.

nid unrhyw gorff cyhoeddus arall, y mae'r ddyletswydd i roi sylw i'r cynllun datblygu yn gymwys ar hyn o bryd – ond ni nodwyd gennym beth oedd ystyr “corff cyhoeddus”.

- 5.32 Felly, cyflwynwyd awgrym dros dro gennym y dylai'r ddyletswydd bresennol yn adran 70 (ac yn y darpariaethau eraill y cyfeirir atynt uchod²⁶) i roi sylw i'r cynllun datblygu fod yn gymwys i unrhyw gorff cyhoeddus sy'n arfer unrhyw un o'r swyddogaethau o dan y Cod Cynllunio – nid dim ond i'r dyletswyddau hynny a enwyd yn benodol. Felly, dylid ei gynnwys ar ddechrau'r Bil, ynghyd â'r egwyddor ynglŷn â goruchafiaeth y cynllun, sydd bellach i'w chael yn adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
- 5.33 Ymatebodd 41 o ymgynghorion i'r cwestiwn hwn, yr oedd 32 ohonynt yn cytuno.
- 5.34 Roedd naw ymatebydd yn ansicr. Nododd yr Arolygiaeth Gynllunio na fyddai ein cynigion yn gwneud fawr ddim gwahaniaeth i arfer presennol ond, serch hynny, y byddai'n newid sylweddol i'r gyfraith, ac y gallai effeithio ar gyrff cyhoeddus. Achubodd tri ymgynghorai ar y cyfle i awgrymu mai dim ond os yw'r cynllun datblygu yn gyfredol y dylai'r gofyniad fod yn gymwys – ond mae cyfraith achosion eisoes yn cydnabod yr amod hwnnw.²⁷
- 5.35 Gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru am eglurder ynghylch effaith y cynnig ar rôl amrywiol gyrff yr ymgynghorir â hwy mewn perthynas â cheisiadau cynllunio. Awgrymodd CS Ceredigion, CS Caerfyrddin, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a Pharciau Cenedlaethol Cymru y byddai angen ystyried y goblygiadau o ran llunio cynlluniau. Ac yn ein trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, pwysleisiwyd y byddai angen i ni fod yn glir o ran pa swyddogaethau a gâi eu cwmpasu gan y ddyletswydd newydd, a pha gyrff cyhoeddus.

Y cyrff y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys iddynt

- 5.36 Yn gyntaf, rydym yn derbyn bod angen i'r Bil fod yn glir o ran pa gyrff fydd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i roi sylw i'r cynllun datblygu.
- 5.37 Rydym o'r farn y dylai o leiaf fod yn gymwys i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn llunio cynlluniau a chynigion o dan y Deddfau cynllunio, sef awdurdodau cynllunio, paneli cynllunio strategol a Gweinidogion Cymru fel arfer.
- 5.38 Rydym wedi nodi uchod, mewn rhai achosion, pan fo dyletswydd ar awdurdodau cynllunio i roi sylw i'r cynllun datblygu, nad oes dyletswydd o'r fath ar Weinidogion Cymru.²⁸ Yn ymarferol, bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi cryn sylw i'r cynllun datblygu, nid dim ond wrth benderfynu ar geisiadau a alwyd i mewn ac apeliadau ond hefyd wrth arfer pwerau diofyn, ystyried p'un a ddylid cymeradwyo cyfarwyddiadau erthygl 4, neu gadarnhau gorchmynion dirwyn i ben sy'n dileu caniatâd tybiedig ar gyfer hysbysebion. Ond mewn perthynas â rhai o'u pwerau eraill – yn enwedig y pwerau i wneud rheoliadau sy'n pennu amrywiol faterion – ni fyddai'r ddyletswydd i roi sylw i'r cynllun datblygu yn berthnasol.

²⁶ Gweler **troednodyn 2** uchod.

²⁷ A gweler PCC bellach (nawfed argraffiad), Pennod 2.

²⁸ Gweler **para 5.9** uchod.

- 5.39 Cododd Cyfoeth Naturiol Cymru y pwynt, mewn perthynas â'n holl gynigion a oedd yn ymwneud â dyletswyddau i ystyried amrywiol faterion (Cwestiynau 5-1 i 5-6 o'r Ymgynghoriad), mai dim ond i gyrff gwneud penderfyniadau, ac nid cyrff cyhoeddus eraill y mae eu rôl yn y system gynllunio wedi'i chyfyngu i ymateb i ymgynghoriadau ar gynigion i raddau helaeth, y dylai dyletswyddau o'r fath fod yn gymwys.
- 5.40 O ran cyrff heblaw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, rydym yn derbyn na fyddai gosod dyletswydd ar "cyrff cyhoeddus" yn gyffredinol (nac "awdurdodau cyhoeddus" neu ryw derm arall o'r fath) yn fuddiol. Mae'n werth nodi yn Neddf Cefn Gwlad 1968, sef y statud cynharaf o blith y rhai a ystyrir uchod, nad yw'r rhestr o gyrff y gosodir dyletswydd arnynt o dan adran 11 yn un hollgynhwysfawr; a bod rhai o'r termau allweddol (megis cyrff cyhoeddus) wedi'u diffinio'n eithaf cyffredinol ac nad yw eraill (ymgymerwyr statudol) wedi'u diffinio o gwbl. Mewn deddfwriaeth fwy diweddar, yn enwedig Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r cyrff y gosodir dyletswyddau arnynt wedi'u diffinio – yn fanwl iawn.
- 5.41 Byddai'n bosibl cynnwys atodlen debyg i Atodlen 19 i Ddeddf 2010 yn y Bil, er mwyn cynnwys pob un o'r rhanddeiliaid allweddol yn y system gynllunio. Fodd bynnag, byddai hynny'n anochel yn arwain at broblemau o ran sicrhau bod pob corff perthnasol (a dim rhai amherthnasol) wedi'u cynnwys, a bod y rhestr bob amser yn gyfredol. Byddai hefyd yn gwneud y Bil yn gymhleth. Yn bwysicach na hynny, efallai y byddai'n anodd gorfodi dyletswydd sy'n gymwys ar raddfa mor eang, gan arwain at ymglyfreitha annheilwng o bosibl. Felly, nid argymhellwn y dull gweithredu hwnnw.
- 5.42 At hynny, pe bai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac ati (awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru yn bennaf) yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i roi sylw i'r cynllun datblygu, byddai'n rhaid i unrhyw gyrff eraill sy'n rhan o'r broses gynllunio roi sylw i'r cynllun hefyd mewn gwirionedd, oherwydd byddai ymyrryd ar sail a fyddai'n golygu mynd yn groes i'r cynllun, yn anghynhyrchiol ac yn wastraff amser. Felly, er enghraifft, gallai cyngor cymuned neu ymgymerydd statudol, wrth gyflwyno sylwadau ar gais cynllunio neu apêl, naill ai dynnu sylw'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad at bolisiâu'r cynllun a oedd yn cefnogi'r achos a oedd yn cael ei hyrwyddo; neu gallai nodi bodolaeth polisiâu o'r fath ac esbonio pam na ddylid eu dilyn yn yr achos penodol hwn.
- 5.43 Felly, yn ein barn ni, dim ond ar y cyrff hynny sy'n gwneud penderfyniadau perthnasol ac ati o dan y Ddeddf y mae angen gosod y ddyletswydd – yn ymarferol, awdurdodau cynllunio, paneli cynllunio strategol a Gweinidogion Cymru.

Y swyddogaethau y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys iddynt

- 5.44 Rydym wedi ystyried cwmpas y swyddogaethau statudol y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys iddynt yn ofalus, gan gadw dymunoldeb osgoi ymglyfreitha annheilwng mewn cof. Felly, mae cryn dipyn o ymglyfreitha eisoes mewn perthynas â'r ddyletswydd fel y mae'n gymwys ar hyn o bryd; y cyfan a awgrymwn yw y dylid ei hymestyn i bob swyddogaeth o dan y Ddeddf sy'n berthnasol.
- 5.45 Mae'r swyddogaethau y mae'r cynllun datblygu yn amlwg yn berthnasol iddynt yn cynnwys y canlynol:

- 1) penderfyniadau i wneud gorchmynion datblygu lleol; neu i wneud cyfarwyddiadau o dan orchmynion datblygu cyffredinol sy'n cyfyngu ar hawliau datblygiad a ganiateir;
- 2) penderfyniadau sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio ac apeliadau – gan gynnwys p'un a ddylai cais gael ei alw i mewn er mwyn i Weinidogion Cymru benderfynu arno; y penderfyniad cychwynnol i roi neu wrthod caniatâd; gosod amodau; cymeradwyo materion sy'n ofynnol o dan amodau; cynnal achosion apêl;
- 3) penderfyniadau i addasu neu ddiddymu caniatâd cynllunio, neu addasu amodau; neu i ddirwyn datblygiad i ben;
- 4) penderfyniadau ynglŷn â'r ymateb i hysbysiadau prynu;
- 5) penderfyniadau ynglŷn ag achosion gorfodi – gan gynnwys y penderfyniad cychwynnol i weithredu; dewis y weithdrefn i'w dilyn; a ph'un a ddylid dirwyn camau gweithredu o'r fath i ben, ac ar ba sail;
- 6) penderfyniadau sy'n ymwneud ag amwynder ardal – gan gynnwys gwneud gorchmynion sy'n tynnu caniatâd tybiedig ar gyfer hysbyseb yn ôl; gwneud a chadarnhau gorchmynion diogelu coed; cyhoeddi hysbysiadau tir blêr yr olwg; camau gweithredu i ymdrin â graffiti a gosod posteri'n anghyfreithlon; a dynodi ardaloedd cadwraeth;
- 7) penderfyniadau ynglŷn â chaffael a gwaredu tir at ddibenion cynllunio.

5.46 O ran llunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol neu gynllun strategol neu leol neu ei addasu neu ei dynnu'n ôl, byddai'n briodol pe bai'r corff sy'n llunio'r cynllun yn rhoi sylw i unrhyw ran arall o'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal dan sylw, ac unrhyw gynllun datblygu ar gyfer unrhyw ardal gyfagos. Fodd bynnag, mae cynllun wedi'i lunio'n ofalus eisoes yn bodoli sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r amrywiol awdurdodau roi sylw i gynlluniau datblygu penodol – er enghraifft, cynlluniau datblygu awdurdodau cyfagos. Yn ein barn ni, nid oes angen cymhwyso'r ddyletswydd newydd fel ei bod yn disodli'r dyletswyddau hynny.²⁹

5.47 Mewn perthynas â Rhan 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (rheoli datblygu), Pennod 1 o Ran 6 (hysbysiad gorfodi), a Rhan 7 (gorfodi), rydym o'r farn y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys i bob swyddogaeth, gan fod pob un ohonynt yn gysylltiedig – dylai'r penderfyniad ynghylch p'un a ddylid cymryd camau gorfodi, neu dynnu hysbysiad gorfodi yn ôl, er enghraifft fod yr un mor ddarostyngedig i'r ddyletswydd cynllun datblygu â phenderfyniad i roi caniatâd cynllunio ai peidio. Yn yr un modd, dylai Gweinidogion Cymru fod yn ddarostyngedig i'r un ddyletswydd ag awdurdodau cynllunio.

5.48 Dylai arfer swyddogaethau o dan Ran 8 (coed, hysbysebion a thir anniben) fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd, i'r graddau y mae unrhyw bolisiau perthnasol sy'n ymwneud â'r cynllun datblygu, a hefyd y rhai o dan Ran 9 (caffael tir at ddibenion

²⁹ Ar hyn o bryd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Rhan 2 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Rhan 6 (cynlluniau datblygu),

cynllunio). Yn benodol, dylai'r rhai sy'n penderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd heblaw caniatâd cynllunio – hynny yw, cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth (os caiff y caniatadau hynny eu cadw), caniatâd i arddangos hysbysebion neu i wneud gwaith ar goed a warchodir – roi sylw i'r cynllun datblygu i'r graddau y mae'r cynllun yn cynnwys unrhyw bolisiau perthnasol.

- 5.49 Yn amlwg, ni fyddai'n berthnasol rhoi sylw i'r cynllun datblygu wrth wneud penderfyniad sy'n fater cyfreithiol yn y bôn – megis penderfynu a oes angen caniatâd cynllunio neu unrhyw fath o ganiatâd ar gyfer cynnig penodol, neu benderfyniad ar ymateb i her yn yr Uchel Lys ai peidio, a sut, neu benderfynu ar hawliad digolledu. Ac ni fyddai'r cynllun yn berthnasol ychwaith i gymhwysio diffiniad statudol at set benodol o ffeithiau.
- 5.50 Fel arfer, ni fyddai'r cynllun yn berthnasol i benderfyniad gan Weinidogion Cymru ar b'un a ddylid gwneud rheoliadau ynglŷn â gweithdrefnau cynllunio neu'r angen am ganiatâd. Fodd bynnag, gallai ddigwydd fod darn penodol o is-ddeddfwriaeth yn aml yn rhwystro polisiau cynllun datblygu rhag cael eu rhoi ar waith, ac os felly gallai fod yn briodol ystyried hynny wrth ystyried p'un a ddylid ei addasu. Felly, er enghraifft, pe bai nifer o awdurdodau cynllunio yn gwneud cyfarwyddiadau Erthygl 4 i osgoi canlyniad darpariaeth benodol yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) neu'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd gan rwystro polisiau cynllun datblygu, byddai Gweinidogion Cymru, yn ddiau, yn ystyried hynny wrth ystyried p'un a ddylid addasu neu ddileu'r ddarpariaeth. Felly, yn ein barn ni, gallai'r cynllun datblygu fod yn berthnasol, ond derbyniwn y byddai risg wirioneddol o ymglybiaeth annheilwng mewn perthynas ag achos o'r fath, sy'n bwysicach na dymunoldeb dyletswydd benodol.

Casgliad

- 5.51 Felly at ei gilydd, rydym o'r farn y dylai graddau'r ddyletswydd gael eu cyfyngu drwy fod yn gymwys i bob swyddogaeth sy'n cael ei harfer gan awdurdodau cynllunio neu Lywodraeth Cymru o dan y Bil heblaw am y rhai sy'n ymwneud â llunio'r cynllun datblygu, penderfynu ar geisiadau am dystysgrifau, neu hawliadau digolledu, a gwneud is-ddeddfwriaeth.

Argymhelliad 5-1.

Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil, i'r perwyl, wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau neu eu swyddogaethau o dan y Cod, fod yn rhaid i'r awdurdod cynllunio, neu banel cynllunio strategol neu, fel y digwydd, Weinidogion Cymru:

- (1) **roi sylw i'r cynllun datblygu, i'r graddau y mae'n berthnasol i arfer y swyddogaeth honno;**
- (2) **arfer y swyddogaeth honno yn unol â'r cynllun oni noda unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill fel arall**

ond na ddylai'r ddyletswydd hon fod yn gymwys i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â llunio'r cynllun datblygu, penderfynu ar geisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb neu hawliadau am iawndal, na gwneud is-ddeddfwriaeth.

Y DDYLETSWYDD GYFFREDINOL I ROI SYLW I YSTYRIAETHAU ERAILL

Diwygiadau posibl

- 5.52 Nodwyd yn y Papur Ymgynghori fod nifer o ddarpariaethau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn gosod, ochr yn ochr â'r ddyletswydd i roi sylw i'r cynllun datblygu (a ystyrir uchod), ddyletswydd i roi sylw i "any other material considerations". Fel yn achos y ddyletswydd sy'n ymwneud â'r cynllun datblygu, gosodir y ddyletswydd benodol i ystyried ystyriaethau perthnasol eraill ar awdurdodau cynllunio, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac o dan yr amgylchiadau eraill a nodir ym mharagraff 5.11 uchod,³⁰ ac ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau a alwyd i mewn ac apeliadau.³¹ Fodd bynnag, yma hefyd mae hynny'n gadael nifer o swyddogaethau o dan y Ddeddf nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd statudol.
- 5.53 Nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori y gellir dadlau nad yw'r ddyletswydd yn adran 70 ac mewn manau eraill i roi sylw i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill yn ddim byd amgenach na datganiad statudol o un o egwyddorion sylfaenol cyfraith weinyddol.³² Fodd bynnag, mae'n hollbwysig, am fod yn rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn sawl achos ystyried lluo o ffactorau y mae'r cynllun datblygu ond ymdrin â hwy'n rhannol, neu lle nad yw'r cynllun yn gyfredol mwyach neu nad yw'n cyfeirio atynt o gwbl.³³
- 5.54 O ran yr hyn y gellir ei ddisbarthu'n briodol yn ystyriaeth berthnasol, cyfeiriwyd at y gyfraith achosion berthnasol gennym, a daethom i'r casgliad bod yr egwyddor a amlinellir yn *Stringer v Minister of Housing and Local Government*³⁴ yn parhau i grynhoi'r sefyllfa gyfreithiol yn gywir; ond nad oedd modd ei geirio'n hawdd fel darpariaeth statudol. Nodwyd hefyd fod Tŷ'r Arglwyddi a'r Goruchaf Lys ar sawl achlysur wedi cadarnhau bod "material" yn y cyd-destun hwn yn golygu "relevant".³⁵
- 5.55 Felly, gwnaethom nifer o awgrymiadau, a nodir isod.

³⁰ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 70(2)(c), 91(2), 92(6), 97(2), 102(1), 172(1)(b), Atod 9, para 1(1).

³¹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 70(2)(c), 77(4)(a), 79(4)(a).

³² *Associated Provincial Picture Houses v Wednesbury Corporation* [1948] 1 KB 223, CA, yn unol â'r Arglwydd Greene MR ar dud 229; gweler hefyd *Padfield v Minister of Agriculture, Fisheries and Food* [1968] AC 997, HL, yn unol â'r Arglwydd Reid ar dud 1030, a *R v Alconbury Developments Ltd v Secretary of State* [2003] 2 AC 295 yn [50] (Papur Ymgynghori, para 5.28).

³³ Papur Ymgynghori, para 5.29.

³⁴ [1970] 1 WLR 1281, ar du 1294.

³⁵ *Tesco Stores v Secretary of State and West Oxfordshire DC* (1994) 68 P&CR 219, CA, yn unol â'r Arglwydd Bingham ar dud 227; *R (Health and Safety Executive) v Wolverhampton CC* [2012] UKSC 34, 1 WLR 2264, yn unol â'r Arglwydd Carnwath o Notting Hill yn [26]. Gweler y Papur Ymgynghori, paragraffau 5.31, 5.32.

Cynnwys diffiniad o “ystyriaethau perthnasol” yn y Bil

Awgrymwyd gennym y byddai ceisio diffinio ystyriaethau perthnasol yn y Cod Cynllunio yn achosi cynifer o broblemau ag y byddai'n eu datrys (Y Papur Ymgynghori 5-2(a)).

- 5.56 Ymatebodd 24 o ymgynghoreion i'r awgrym hwn, yr oedd 21 ohonynt yn cytuno ag ef. Anghytunodd un ymgynghorai, sef Grŵp Preswylwyr CMet.
- 5.57 Awgrymodd rhai a ymatebodd i Gwestiwn 5-3 (a drafodir isod) faterion hefyd y dylid eu cydnabod yn benodol fel “ystyriaethau perthnasol”, megis canllawiau cynllunio atodol, budd y cyhoedd a chanlyniadau cyfranogiad y cyhoedd; a throedd ac anhrefn. Ac awgrymodd un (CBS Merthyr Tudful) y dylid eithrio rhai yn benodol – megis polisiâu iechyd, agoswydd defnyddiau A3³⁶ i ysgolion ac ati. Yn ddiaw, gallai unrhyw un sy'n defnyddio'r system gynllunio awgrymu rhywbeth y dylid ei gynnwys neu ei eithrio. Fodd bynnag, byddai'n anodd tu hwnt llunio rhestr a fyddai'n gynhwysfawr.
- 5.58 Awgrymodd Grŵp Preswylwyr CMet, mewn ymateb i gwestiwn 5-2, restr o 19 o eitemau i'w cynnwys o bosibl mewn rhestr o “ystyriaethau perthnasol”, yn seiliedig ar archwilio gwefan y Porth Cynllunio. Rydym yn ddiolchgar iddynt am gynnal yr ymarfer defnyddiol hwn. Fodd bynnag, tynnodd y canlyniad sylw at y problemau dan sylw: cwmpesir sawl eitem (megis mynediad i bobl ag anableddau, ystyriaethau treftadaeth, a'r cynllun datblygu) gan ddyletswyddau statudol eraill; rydym yn ymdrin ag un (polisi'r Llywodraeth) isod; roedd un (canllawiau cynllunio atodol) yn llawn amodau. Mae'r eitemau eraill yn ffurfio rhestr sydd ymhell o fod yn gynhwysfawr. Yn benodol, mae'n cyfeirio at nifer o bryderon trefol (parcio, traffig, sŵn, edrych dros ac ati) ond nid yw'n crybwyll effeithiau ar barciau cenedlaethol, manau agored na bioamrywiaeth. Byddai unrhyw restr o'r fath bron yn anochel yn agored i'r un feirniadaeth.
- 5.59 Felly, rydym yn dal i gredu na fyddai'n fuddiol ceisio llunio diffiniad o “ystyriaethau perthnasol”, na llunio rhestr o ystyriaethau a allai fod yn berthnasol – hyd yn oed ar sail anghyfyngol.

“Material considerations” ynteu “relevant considerations”?

Awgrymwyd gennym y byddai'r term “relevant considerations” yn fwy priodol na “material considerations” (Cwestiwn 5-2(b) o'r Ymgynghoriad).

- 5.60 Ymatebodd 40 o ymgynghoreion i'r pwynt hwn; roedd 17 yn cytuno â'n hawgrym, roedd 11 yn ansicr, ac roedd 11 yn anghytuno.
- 5.61 Cytunodd Keith Bush CF fod “material” yn amwys ac yn anodd i bobl leyg ei ddeall. Nododd hefyd fod “relevant” yn haws ei gyfleu'n ddwyieithog, gan fod “perthnasol” yn cyfleu'r un ystyr yn hawdd yn Gymraeg. Cytunodd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod y term “relevant considerations” yn fwy priodol ac yn fwy cyson â therminoleg cyfraith weinyddol gyfoes. A chytunodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU “one of the key problems with planning law in its current state is the unnecessarily confusing and

³⁶ Bwyta, siopau byrbrydau a chaffis (Dosbarth A3 yn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd).

outdated nature of the language used. Therefore, we would welcome the proposal to change this term to ‘relevant considerations’.

- 5.62 Roedd ymatebwyr eraill yn fwy petrus. Gwnaeth sawl un, gan gynnwys yr Arolygiaeth Gynllunio, y pwynt bod y gair “material” yn digwydd mewn dau gyd-destun arwyddocaol yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – “material change of use” (yn adran 55) a “material considerations” (yn adran 70 ac mewn manau eraill) – gan gwestiynu ‘p’un a fyddai newid y term mewn un cyd-destun yn achosi problem gyda’r defnydd a wneir ohono mewn cyd-destun arall. Awgrymodd ymatebwyr eraill, sef awdurdodau lleol a defnyddwyr hirdymor o’r system gynllunio yn bennaf, fod y term “material considerations” yn cael ei ddeall yn dda, ac nad oes angen ei newid.
- 5.63 Yn unol â hynny, rydym wedi ystyried ystyr y gair “material” yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ofalus. Nodwyd gennym, yn ogystal ag adrannau 55 a 70, fod y gair “material” yn cael ei ddefnyddio fel ansoddair mewn mwy na 40 o fannau eraill yn y Ddeddf. Mae’r Oxford English Dictionary yn cynnig saith diffiniad gwahanol o’r ansoddair “material”; ond mae’r defnydd a wneir ohono yn y Ddeddf yn dod o dan dri o’r rhain ar y cyfan, gydag ychydig o orgyffwrdd ³⁷
- 5.64 Yn gyntaf, mewn nifer o fannau, defnyddir y gair “material” yn Saesneg i olygu “major”, “not trivial” neu “significant” (yn Gymraeg, “sylweddol”) – er enghraifft, gweithrediad adeiladu sy’n effeithio’n sylweddol ar olwg allanol adeilad; rhywbeth sy’n newid unrhyw amod neu gyfyngiad yn sylweddol; newid sylweddol neu ansylweddol i ganiatâd cynllunio; niwed sylweddol i dŷ; budd yr effeithid arno’n sylweddol drwy gymryd camau gorfodi; newid sylweddol yn unrhyw un o’r materion sy’n berthnasol i benderfynu ar gyfreithlondeb; bodloni’ch hun nad yw diffyg yn sylweddol; a dogfen sy’n ddarllenadwy ym mhob ffordd berthnasol.³⁸ Ym mhob un o’r enghreifftiau hyn, mae’r peth dan sylw yn berthnasol at ddibenion y ddarpariaeth statudol dan sylw, yn syml, am nad yw’n ddiwbys – bydd unrhyw weithrediad adeiladu yn effeithio ar olwg tŷ, ond mae rhai yn rhy fân i’w hystyried.
- 5.65 Yn ail, mewn rhai manau, ystyr “material” yw “relevant” (yn Gymraeg, “perthnasol”). Felly, dim ond i’r graddau y mae’r cynllun datblygu yn berthnasol i’r cais y mae angen ei ystyried.³⁹ Yn yr un modd, dim ond ystyriaethau eraill – hynny yw, ystyriaethau heblaw’r cynllun datblygu y mae angen i’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau roi sylw iddynt – a hynny dim ond i’r graddau y maent yn berthnasol.⁴⁰ Felly, er enghraifft, mae’r Llysoedd wedi cadarnhau y gall amgylchiadau personol ymgeisydd ar gyfer caniatâd cynllunio fod yn “berthnasol” mewn rhai achosion wrth benderfynu ar y cais. Mae’r diffiniad o “owner-occupier” yn cyfeirio at berson sydd ar bob adeg sy’n

³⁷ Mae hyn nid yn unig yn achosi problemau i’r rhai sy’n defnyddio’r testun Saesneg, ond mae hefyd yn achosi cryn anhawster i gyfieithwyr Cymraeg. Rydym yn ddiolchgar am y cymorth a gawsom ar y pwynt hwn gan Wasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru.

³⁸ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 55(1), (3), (5); a 55(2)(a)(ii); adrannau 61D(2),(3), 61DE(2); adrannau 69, 96A, 100A, 286; a 166(2); adrannau 65(6), 171D(5), 193(7), 194(1); adrannau 171BB(4), 173ZA; a 192(4); a 193(7); adrannau 217(4), 225B(4), 225D(3), 225I(3); a 329(3A).

³⁹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 70(2)(a), 70A(1), 70A(6), 91(2), 92(6), 97, 102, 172, 177(2).

⁴⁰ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 62(4A), 70(2)(c), 70A(1), 70A(6), 91(2), 92(6), 97, 102, 172, 177(2).

berthnasol at ddibenion [paragraff (a) neu baragraff (b)] wedi bod â hawl i fudd perchennog – hynny yw, ar bob adeg sy'n berthnasol at ddibenion penodol.⁴¹

- 5.66 Un enghraifft nodedig o'r defnydd o'r ystyr cyntaf a'r ail ystyr mewn darpariaeth statudol unigol yw adran 193(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel a ganlyn:

A local planning authority may revoke a certificate under section 191 or section 192 if, on the application for the certificate—

- (a) a statement was made or document used which was false in a material particular; or
- (b) any material information was withheld.

Mae darpariaethau eraill sy'n debyg. Yn y cyfeiriadau at ddatganiadau a dogfennau "false or misleading in a material particular," ymddengys mai ystyr "material" yw "significant". Ond yn y cyfeiriadau at "withholding material information", ymddengys ei fod yn fwy tebygol o olygu "relevant".

- 5.67 Yn drydydd, mae'r darpariaethau yn adran 56 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymdrin â dechrau datblygiad yn cyfeirio at "material operation" and "material development".⁴² Defnyddir pob term mewn ystyr benodol iawn, a ddiffinnir yn yr adran ei hun. Tynnwyd sylw at y darpariaethau hyn gan PEBA. A gellir dadlau bod "material" yn yr ymadrodd "material change of use" yn enghraifft o'r diffiniad cyntaf o blith yr uchod ("major", "not trivial" neu "significant"), ond gellir dadlau ei bod yn enghraifft o'r ail ddiffiniad hefyd. ("relevant"). Sut bynnag, mae'n derm cyfreithiol a ddefnyddir yn helaeth, sydd wedi magu ystyr eithaf penodol – ond un sydd ond yn dod i'r amlwg o edrych ar gryn dipyn o gyfraith achosion.

- 5.68 Yn erbyn y cefndir hwnnw, nid ydym wedi ein darbwylo bod y term "material considerations" yn cael ei ddeall yn dda. Mae'n ddigon posibl bod y rhai, megis awdurdodau cynllunio, ymgynghorwyr cynllunio a chyfreithwyr, sydd wedi gweithredu'r system gynllunio dros flynyddoedd lawer, yn ei ddeall. Ond bydd eraill – newydd-ddyfodiaid, grwpiau trydydd sector a pherchenogion tir unigol – y bydd y termau technegol a ddefnyddir yn anghyfarwydd iddynt. Er na fydd modd osgoi rhai, dylid lleihau nifer y termau o'r fath i'r eithaf. Credwn o hyd bod yr ymadroddion "development plan, so far as relevant" ac "other relevant considerations" yn debygol o gael eu deall yn fwy cyffredinol ymhlith defnyddwyr y system gynllunio yn gyffredinol. A gall canllawiau bwysleisio bod y term "relevant" yn Saesneg yn y cyddestun hwn, yn cyfateb i'r un hen derm "material".

- 5.69 Felly, rydym o'r farn y dylai'r gair "perthnasol" yn yr ystyr gyntaf a nodir uchod gael ei ddisodli gan "significant" ("sylweddol"); wrth ddefnyddio'r gair yn yr ail ystyr, dylai gael ei ddisodli gan "relevant" ("perthnasol"). Ond nid ydym yn awgrymu unrhyw newid i'r defnydd o'r gair "material" yn adran 56, gan fod hon yn ddarpariaeth gwbl

⁴¹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 168(2).

⁴² Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 56(2), (4), (5).

hunangynhwysol; nac ychwaith i'r ymadrodd "material change of use", fel term cyfreithiol a gaiff ei adnabod yn dda.

- 5.70 Yn benodol, rydym yn parhau i argymhell y dylid defnyddio'r gair "relevant" yn Saesneg (neu "perthnasol" yn Gymraeg) yn lle "material" yn narpariaethau'r Bil sy'n cyfateb i adrannau 62(4A), 70(2), 70A(1), 70A(6), 91(2), 92(6), 97, 102, 172 a 177(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yn ein barn ni, byddai hyn yn gwneud effaith y gyfraith yn fwy eglur.

Swyddogaethau y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys iddynt

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil i'r perwyl bod yn rhaid i gorff cyhoeddus sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod hefyd roi sylw i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill (Cwestiwn 5-3 o'r Ymgynghoriad)

- 5.71 Ymatebodd 34 o ymgynghoreion, yr oedd 29 ohonynt yn cytuno, yr oedd 4 yn ansicr neu wedi codi pwyntiau eraill, ac yr oedd un ohonynt yn anghytuno.
- 5.72 Am yr un rhesymau ag sy'n sail i'n casgliad mewn perthynas â'r cynllun datblygu, rydym o'r farn y dylai'r ddyletswydd i roi sylw i ystyriaethau perthnasol eraill fod yn gymwys i unrhyw swyddogaethau a gyflawnir gan gyrff sy'n gwneud penderfyniadau cynllunio. At hynny, gan fod y ddyletswydd i roi sylw i bob ystyriaeth berthnasol eisoes yn gymwys o dan y gyfraith gyffredin i wneud unrhyw benderfyniad gweinyddol, byddai'n anfoddhaol pennu rhai swyddogaethau yn benodol ond nid eraill.
- 5.73 Anghytunodd Cyngor Tref y Drenwydd a Llanllwchaearn, ar y sail yr hoffai weld diffiniad o'r geiriau "any function", yn enwedig drwy gyfeirio at le cynghorau cymuned yn y broses gynllunio. Fodd bynnag, ni fyddai'r mater hwn yn codi pe bai'r ddyletswydd wedi'i chyfyngu i swyddogaethau o dan y Cod Cynllunio a gyflawnir gan awdurdod cynllunio, panel cynllunio strategol, neu Weinidogion Cymru.
- 5.74 O ystyried y ddyletswydd gyffredinol bresennol o dan y gyfraith gyffredin i roi sylw i ystyriaethau perthnasol, byddai hyn yn gyfystyr ag egluro'r gyfraith.

Argymhelliad 5-2.

Argymhellwn y canlynol:

- (1) **nid yw'r Bil yn cynnwys diffiniad o'r term "ystyriaethau perthnasol" na rhestr o enghreifftiau;**
- (2) **defnyddir y gair "relevant" yn lle "material" yn narpariaethau'r Bil sy'n cyfateb i adrannau 62(4A), 70(2), 70A(1), 70A(6), 91(2), 92(6), 97, 102, 172 a 177(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**

Argymhelliad 5-3.

Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil i'r perwyl bod yn rhaid i awdurdod cynllunio, panel cynllunio strategol, neu, yn ôl y digwydd, Gweinidogion Cymru, hefyd roi sylw i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau o dan y Cod.

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL PENODOL (1): ADEILADAU RHESTREDIG AC ASEDAU HANESYDDOL ERAILL

Cynigiwyd dros dro y dylid cynnwys darpariaeth neu ddarpariaethau i'r perwyl bod yn rhaid i gorff sy'n arfer unrhyw swyddogaeth statudol roi sylw i ddymunoldeb gwarchod neu wella asedau hanesyddol, eu lleoliad, ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb arbennig sydd ganddynt; a bod yn rhaid i gorff sy'n arfer swyddogaethau o dan y Cod Cynllunio a'r Cod Amgylchedd Hanesyddol roi sylw i'r materion hynny (Cwestiwn 5-4(a) o'r Ymgynghoriad).

Awgrymwyd hefyd y dylid diffinio "asedau treftadaeth" er mwyn cynnwys safleoedd treftadaeth y byd, henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi cofrestredig, ac unrhyw gyfryw categorïau eraill o dir ag y gall Gweinidogion Cymru eu rhagnodi (Cwestiwn 5-4(b) o'r Ymgynghoriad).

Y gyfraith bresennol

- 5.75 Rydym wedi crynhoi'r dyletswyddau sy'n bodoli eisoes o ran asedau hanesyddol, a therfyn eu cwmpas.⁴³ Nodwyd hefyd yr amrywiadau afresymegol yn eu cwmpas.
- 5.76 Cynigiwyd dros dro y dylid ehangu'r dyletswyddau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth er mwyn bod yn gymwys yn yr un modd mewn perthynas ag unrhyw ased hanesyddol (gan gynnwys safleoedd treftadaeth y byd, henebion cofrestredig, a pharciau a gerddi cofrestredig). Ac awgrymwyd y byddai'n briodol mewnosod pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu categorïau eraill o dir at y diffiniad o 'ased hanesyddol', er mwyn gallu cynnwys, er enghraifft, meysydd cad cofrestredig.

Dyletswydd gyffredinol i roi sylw (neu sylw arbennig) i asedau hanesyddol

- 5.77 O ran ehangu'r ddyletswydd gyffredinol, ymatebodd 45 o ymgynghoreion. Roedd 34 yn cytuno – roedd y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol (SPAB) a Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr, er enghraifft, yn cytuno'n gryf, ac roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr yn croesawu'r eglurder y byddai hyn yn ei roi. Ac roedd dau ymgynghorai yn ansicr.
- 5.78 Roedd Parc Awdurdod Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parciau Cenedlaethol Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin yn cytuno mewn egwyddor, ond gofynnwyd am eglurder ynghylch graddau'r swyddogaethau y byddai'r ddyletswydd yn gymwys iddynt.

⁴³ Papur Ymgynghori, paragraffau 5.41 i 5.56. Gweler hefyd y drafodaeth uchod, **ym mharagraffau 5.15 i 5.17.**

Gwnaethant hwy ac eraill nodi hefyd fod angen lefelau gwahanol o ddiogelwch ar gategoriâu gwahanol o asedau.

- 5.79 Roedd dau ymgynghorai yn anghytuno â'r cynnig, gan awgrymu ei fod yn rhy eang ac y byddai'n arwain at amwysedd ynglŷn â chwmpas y pŵer arfaethedig. Awgrymodd CBS Rhondda Cynon Taf y dylai'r ddyletswydd fod wedi'i chyfyngu i amgylchiadau pan fo penderfyniad yn effeithio ar ased hanesyddol neu ei leoliad. Awgrymodd Cyngor Tref y Drenwydd a Llanllwchaearn hefyd fod ehangder y diffiniad yn creu ansicrwydd ynglŷn â lle cynghorau cymuned a thref.
- 5.80 Rydym yn anghytuno. Er mwyn nodi enghreifftiau pan fo penderfyniadau yn effeithio ar ased hanesyddol neu ei leoliad, mae'n rhaid i gorff cyhoeddus o anghenraid ystyried pob penderfyniad sy'n dod o dan ei awdurdodaeth. Felly, mae'n rhaid i'r ddyletswydd i roi sylw i faterion sy'n ymwneud ag asedau hanesyddol fod yn eang o anghenraid, er mwyn caniatáu i awdurdodau ymgorffori materion o'r fath fel rhan o'u pwerau ehangach i wneud penderfyniadau. Rydym hefyd o'r farn bod y diffiniad yn ddigon eang i gynnwys cynghorau cymuned a thref, pan fônt yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau cynllunio sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.
- 5.81 Byddem yn rhagweld y byddai'r ddyletswydd ehangach yn gymwys i arfer unrhyw swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfwriaeth, fel yn achos y dyletswyddau sy'n ymwneud â pharciau cenedlaethol, AHNEau etc.⁴⁴ Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb rhwng yr amrywiol ddynodiadau arbennig. Nid yw hyn yn golygu bod pob un o'r dynodiadau hynny yr un mor bwysig â'i gilydd ym mhob achos, yn yr un ffordd nad yw pob adeilad rhestredig yr un mor bwysig â'i gilydd. Ond byddai'n sicrhau y bydd penderfynwyr a chyrrff sy'n cyflwyno cynigion mewn cysylltiad â thir sy'n dod o dan unrhyw un o'r categorïau perthnasol o leiaf yn rhoi sylw i ddymunoldeb ei warchod neu ei wella, fel y bo'n briodol.
- 5.82 Ar hyn o bryd, mae'r ddyletswydd sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig, os dyletswydd felly, yn cyfeirio at warchod yr adeiladau eu hunain, eu lleoliad a'u nodweddion. Mae'r ddyletswydd sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth yn cyfeirio at warchod a gwella eu cymeriad a'u hymddangosiad. Byddai modd pennu'r ddyletswydd yn wahanol ar gyfer pob dosbarth o ased hanesyddol – neu, er enghraifft, ymestyn y ddyletswydd ynglŷn ag adeiladau rhestredig i gwmpasu henebion cofrestredig. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai hyn yn arwain at lawer o ddadleuon semantig, ac y byddai'n well pennu un ddyletswydd sy'n ymwneud â phob dosbarth o asedau hanesyddol, os oes modd.
- 5.83 Awgrymodd sawl ymgynghorai y dylid defnyddio'r gair "conservation" yn lle "preservation" – y Gymdeithas Tai Hanesyddol (HHA) a Chymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA), er enghraifft, gan awgrymu y byddai hyn yn hanfodol.
- 5.84 Mae Tŷ'r Arglwyddi wedi ystyried y term "preservation", yng nghyd-destun y ddyletswydd ynglŷn ag ardaloedd cadwraeth. Cadarnhaodd benderfyniad y Llys Apêl, sef:

⁴⁴ Gweler **paragraffau 5.19 i 5.25** uchod.

Neither 'preserving' nor 'enhancing' is used in any meaning other than its ordinary English meaning. The court is not here concerned with enhancement, but the ordinary meaning of 'preserve' as a transitive verb is 'to keep safe from harm or injury; to keep in safety, save, take care of, guard'.⁴⁵ In my judgment character or appearance can be said to be preserved where they are not harmed. Cases may be envisaged where development would itself make a positive contribution to preservation of character or appearance. A work of reinstatement might be such. ... The statutorily desirable object of preserving the character or appearance of an area is achieved either by a positive contribution to preservation or by development which leaves character or appearance unharmed, that is to say, preserved.⁴⁶

- 5.85 Byddai'r ymadrodd "the preservation of a listed building", yn ddiau, yn cael ei ddehongli yn yr un modd. Ac nid yw'r ddyletswydd yn ymwneud â gwarchod (fel y'i diffinnir uchod) yr adeilad o dan bob amgylchiad, ond rhoi sylw yn unig i ddymunoldeb gwneud hynny. Mae'n syndod hefyd fod y ddyletswydd i ystyried dymunoldeb gwella'r ased ond yn gymwys yn achos ardal gadwraeth, ac nid adeilad rhestredig.
- 5.86 Yn olaf, noder y gall y gair Cymraeg "cadwraeth" gael ei gyfieithu fel "conservation" neu "preservation".
- 5.87 Rydym o'r farn y dylai'r ddyletswydd gyffredinol gael ei geirio o ran rhoi sylw i ddymunoldeb gwarchod neu wella'r ased dan sylw, a'i nodweddion arbennig, a'i leoliad.

Categoriâu o asedau hanesyddol y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys iddynt

- 5.88 Yn y Papur Ymgynghori, awgrymwyd y dylai'r ddyletswydd newydd fod yn gymwys mewn perthynas ag "asedau hanesyddol" i'w diffinio i gynnwys safleoedd treftadaeth y byd, henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi cofrestredig, ac unrhyw gyfryw gategoriâu eraill o dir ag y gall Gweinidogion Cymru eu rhagnodi.
- 5.89 Ymatebodd 32 o ymgyngoreion i'r pwynt hwn; cytunodd pawb yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Awgrymodd sawl un (gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Theatrau, sawl ymddiriedolaeth archaeolegol, a'r SPAB) fod y diffiniad wedi'i lunio'n rhy dynn, yn yr ystyr ei fod yn cynnwys categorïau a gydnabyddir yn statudol, ond nid categorïau eraill megis adeiladau neu safleoedd a gydnabyddir gan awdurdodau lleol fel rhai o ddi-ddordeb. Awgrymodd eraill ei fod yn rhy lac; Dywedodd PEBA, er enghraifft "it is important that the definition of 'historic assets' is clearly limited to those that have been recognised for their value through a formal designation. Otherwise the scope of the special duty will be uncertain and it will be seen to lack justification."
- 5.90 Cytunodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y gallai gweinidogion ychwanegu at y categorïau o asedau; roedd yr HHA a'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn anghytuno.

⁴⁵ *Oxford English Dictionary*, 2^{il} argraffiad. (1989), cyf. XII, t. 404.

⁴⁶ *South Lakeland DC v Secretary of State [1991] 1 WLR 1322*, (Mann LJ) yn 1326-1327; cadarnhawyd yn *Nhŷ'r Arglwyddi yn [1992] 2 AC 141* ar dud 150F.

- 5.91 Rydym yn deall y dymuniad i allu ymestyn y ddyletswydd i gwmpasu asedau sydd wedi'u dynodi'n llai ffurfiol; ond rydym o'r farn mai dim ond mewn perthynas â chategoriâu o asedau a gydnabyddir gan neu o dan statud y dylai darpariaeth o'r fath fod yn gymwys. Byddai cynnwys categori megis safleoedd gwrthdaro, tirweddau hanesyddol, ardaloedd neu safleoedd eraill y mae awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru yn ystyried eu bod o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol lleol, fel yr anogwyd gan ddau ymgynghorai yn golygu bod y sefyllfa yn rhy benagored. Ar y llaw arall, wrth i ganfyddiadau am werth categorïau penodol o asedau newid dros y blynyddoedd, dylai fod modd i Weinidogion Cymru gyflwyno cofrestr ffurfiol – er enghraifft, meysydd cad – heb fod angen diwygio deddfwriaeth sylfaenol.
- 5.92 Felly, rydym o'r farn y dylai'r diffiniad o "ased hanesyddol" aros fel y'i hawgrymwyd yn y Papur Ymgynghori.

Dyletswydd i ystyried asedau hanesyddol: pwyntiau eraill

- 5.93 Yn y Papur Ymgynghori, awgrymwyd dyletswydd ddyblyg –
- 1) dyletswydd gyffredinol i roi sylw i warchod asedau hanesyddol [etc], sy'n gymwys i unrhyw gorff cyhoeddus (heb ei ddiffinio) sy'n cyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau;
 - 2) dyletswydd fwy penodol i "roi sylw arbennig" i warchod asedau , sy'n gymwys i unrhyw gorff sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth o dan y Cod Cynllunio neu'r Cod Amgylchedd Hanesyddol.
- 5.94 Mewn perthynas â'r cyntaf, yr hyn yr oeddem yn ei olygu oedd dyletswydd gyffredinol sy'n cyfateb i'r rhai hynny a drafodwyd ar ddechrau'r Bennod hon sy'n ymwneud â pharciau cenedlaethol ac AHNEau, sy'n gymwys i bob corff sy'n dod i gysylltiad ag adeiladau ac ardaloedd hanesyddol drwy ei weithrediadau. Mae hon yn ddyletswydd sy'n amlwg yn eisiau ar hyn o bryd. Dylai'r ail ddyletswydd fod yn gymwys yng nghydestun penodol cyflawni swyddogaethau o dan y Deddfau cynllunio. Mae'r ddyletswydd hon yn bodoli ar hyn o bryd, o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, ond dim ond ar ffurf braidd yn wan, fel y nodir uchod.
- 5.95 Ychydig o'r ymgynghoreion a wnaeth unrhyw sylw ar y gwahaniaeth rhwng y rhain; ac rydym yn credu o hyd fod dyletswydd ddyblyg yn briodol.
- 5.96 O ran y cyrff y dylai'r ddyletswydd fwy cyffredinol fod yn gymwys iddynt, mae'n werth nodi bod pob un o'r dyletswyddau a drafodwyd yn gynharach yn y Bennod – y rhai yn y Deddfau cynllunio a'r rhai mewn deddfwriaeth arall – yn cael eu cymhwyso at grŵp penodol o gyrff cyhoeddus. Yn ein barn ni, nid yw'n briodol bod y ddyletswydd gyffredinol sy'n ymwneud ag asedau hanesyddol yn cael ei chymhwyso at y casgliad mawr iawn o gyrff a nodir yn Atodlen 19 i'r Ddeddf Cydraddoldeb – ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn cael unrhyw gysylltiad â materion o'r fath. Ond dylai fod yn gymwys i gyrff sy'n dod i gysylltiad ag asedau hanesyddol drwy eu gweithrediadau.
- 5.97 Yn hytrach na chreu grŵp newydd, yn ein barn ni, y ffordd symlaf fyddai bod y ddyletswydd yn gymwys, hyd y gellir, i gyrff o fewn y categorïau a bennwyd yn un o'r statudau a nodwyd yn gynharach – yn enwedig adran 11 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968,

adran 11A o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949,⁴⁷ ac adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r categorïau o gyrff a nodir yn y tair darpariaeth hynny yn debyg iawn, ond yn ein barn ni, y diffiniad mwyaf priodol yw'r hyn a geir yn adran 85 o Ddeddf 2000 – sef, Gweinidogion, y rhai sy'n dal swyddi cyhoeddus, awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau cymuned), awdurdodau parciau cenedlaethol ac ymgwymerwyr statudol (fel y'u diffiniwyd yn Rhan 11 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990). Dylid ychwanegu paneli cynllunio strategol at y rhestr honno.

- 5.98 Felly, rydym o'r farn y dylai fod dyletswydd gyffredinol – wedi'i lleoli yn y Bil Amgylchedd Hanesyddol – ar gyfer unrhyw gorff o'r fath, wrth gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau ag sy'n effeithio ar ased hanesyddol neu ei leoliad, i roi sylw i ddymunoldeb gwarchod neu wella'r ased, ei leoliad, ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb arbennig sydd ganddo. A phe gwneid hynny, ni fyddai angen cyfeirio at y ddyletswydd gyffredinol honno yn y Bil Cynllunio – fel yn achos y ddyletswydd datblygu cynaliadwy, a ystyrir isod.⁴⁸
- 5.99 O ran y ddyletswydd fwy penodol sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau cynllunio (o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd), am y rhesymau uchod mewn perthynas â'r ddyletswydd i roi sylw i'r cynllun datblygu ac unrhyw ystyriaethau perthnasol⁴⁹, rydym o'r farn y dylai fod yn gymwys i awdurdodau cynllunio, paneli cynllunio strategol a Gweinidogion Cymru. Wrth gwrs, byddai eraill sydd â swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth gynllunio, megis ymgwymerwyr statudol a chynghorau cymuned, yn dal i fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd gyffredinol lai ymestynnol.
- 5.100 Os derbynnir ein hargymhelliad i uno caniatâd cynllunio â chydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth⁵⁰, dylai'r ddyletswydd fwy penodol gael ei lleoli yn y Bil Cynllunio, er mwyn pwysleisio pwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol o hyd mewn penderfyniadau cynllunio. Os na dderbynnir yr argymhelliad hwnnw, gellid lleoli'r dyletswyddau hynny yn y Bil Amgylchedd Hanesyddol.
- 5.101 Rydym yn sylweddoli bod ehangu'r dyletswyddau a geir yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 ar hyn o bryd yn y fath fodd yn newid yn y gyfraith. Ond rydym o'r farn na fyddai'n golygu polisi newydd sylweddol, nac yn arwain at ddadleuon mawr; ac y byddai'n briodol gwneud y newid ar yr un pryd â chydgrynhoi'r gyfraith bresennol.

⁴⁷ Cyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, a 62; wedi'i chymhwyso yng Nghymru gan adran 4a o Ddeddf 1949.

⁴⁸ Gweler **paragraffau 5.143 i 5.146** isod.

⁴⁹ Gweler **paragraffau 5.36 i 5.43a5.72** uchod.

⁵⁰ **Gweler Argymhelliad 13-1.**

Argymhelliad 5-4.

Argymhellwn y canlynol:

- (1) dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil Amgylchedd Hanesyddol i'r perwyl bod yn rhaid i unrhyw gorff cyhoeddus wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth mewn perthynas ag ased hanesyddol neu ei leoliad roi sylw i ddymunoldeb gwarchod neu wella'r ased, ei leoliad, ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb arbennig sydd ganddo;
- (2) dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil Cynllunio i'r perwyl bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio, paneli cynllunio strategol a Gweinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod Cynllunio a'r Cod Amgylchedd Hanesyddol roi sylw arbennig i'r materion hynny i'r graddau y maent yn berthnasol i arfer y swyddogaeth honno;
- (3) dylai "corff cyhoeddus" gynnwys:
 - Gweinidogion Cymru;
 - unrhyw un o Weinidogion y Goron;
 - unrhyw gorff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdod lleol, awdurdod parc cenedlaethol, panel cynllunio strategol, a chydbwyllgor);
 - unrhyw ymgymerydd statudol (fel y'i diffiniwyd yn Rhan 11 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990),
 - unrhyw berson sy'n dal swydd gyhoeddus (fel y'i diffiniwyd yn adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000);
- (4) dylai "asedau treftadaeth" gynnwys safleoedd treftadaeth y byd, henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi cofrestredig, ac unrhyw gyfryw gategoriâu eraill o dir ag y gall Gweinidogion Cymru eu rhagnodi.

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL PENODOL (2): DEFNYDDIO'R GYMRAEG

Cynigiwyd dros dro y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil i'r perwyl bod yn rhaid i'r ystyriaethau perthnasol, y mae'n rhaid i gorff roi sylw iddynt wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod, gynnwys effaith debygol, os oes un, arfer y swyddogaeth honno ar ddefnyddio'r Gymraeg, i'r graddau y mae'n berthnasol i arfer y swyddogaeth honno; ond na ddylai'r ddyletswydd i ystyried yr effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg effeithio ar b'un a oes rhaid rhoi sylw i unrhyw ystyriaeth arall wrth arfer y swyddogaeth honno na'r pwys i'w roi ar unrhyw ystyriaeth o'r fath wrth arfer y swyddogaeth honno (Cwestiwn 5-5 o'r Ymgynghoriad).

- 5.102 Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd bod Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 wedi mewnosod darpariaethau yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r arfarniad o gynaliadwyedd gael ei lunio mewn cysylltiad â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a chynlluniau datblygu strategol a lleol er mwyn cynnwys "an assessment of the likely effects of the policies in the draft Framework on the use of the Welsh language".⁵¹ A mewnosododd adran 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 adran 70(2)(aa) i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio (ac apeliadau) roi sylw i "any considerations relating to the use of the Welsh language, so far as material to the application."
- 5.103 Ond nid oes unrhyw ddyletswydd mewn perthynas ag unrhyw swyddogaeth arall o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, nac unrhyw swyddogaethau o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, i roi sylw i effaith arfer y swyddogaeth honno ar y Gymraeg.
- 5.104 Fel y bydd yn amlwg o'r sylwadau uchod mewn perthynas ag ystyriaethau eraill, mae'n rhaid i unrhyw ystyriaeth – p'un a yw'n cael ei chrybwyll yn benodol yn y statud perthnasol ai peidio – gael ei hystyried os yw'n berthnasol yn ôl y gyfraith i arfer swyddogaeth statudol benodol, ac mae'n rhaid ei hanwybyddu os yw'n amherthnasol.⁵² Mae hynny'n gymwys, mewn egwyddor, i effaith penderfyniad ar ddefnyddio'r Gymraeg yn yr un modd ag unrhyw ystyriaeth arall. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn amlwg p'un a yw mater penodol yn berthnasol mewn gwirionedd, yn yr ystyr gyffredinol hon, a dyna'r rheswm y mae'r Ddeddf yn cyfeirio'n benodol at faterion penodol, er mwyn cael gwared ar unrhyw amheuaeth.
- 5.105 Derbyniwyd gennym y byddai'n ddymunol bod rhyw gyfeiriad at effaith penderfyniadau cynllunio ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y Bil Cynllunio. Felly, derbyniwyd fod hyn yn eithriad i'r egwyddor, a nodir uchod, o beidio â chyfeirio at ystyriaethau perthnasol penodol.⁵³ Fodd bynnag, nid ymddangosai fod unrhyw reswm dros gyfyngu ar yr ystod o swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt. Felly cynigiwyd y dylid cynnwys darpariaeth i'r perwyl y byddai ystyriaethau o'r fath yn cynnwys effaith arfer y swyddogaeth dan sylw ar ddefnyddio'r Gymraeg, lle y bo'n berthnasol.
- 5.106 Ond derbyniwyd gennym y byddai hefyd yn briodol cynnwys darpariaeth yn y Bil sy'n cyfateb i adran 31(4) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, i'r perwyl na ddylai'r ddyletswydd i roi sylw i'r Gymraeg effeithio ar b'un a oedd yn rhaid rhoi sylw i unrhyw ystyriaeth benodol, na'r pwys y dylid ei roi ar unrhyw ystyriaeth o'r fath.
- 5.107 O blith y 37 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn, roedd 30 yn cytuno. Nododd Keith Bush CF

⁵¹ Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 60B(2), a fewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a 3 (Fframwaith Datblygu Cenedlaethol); a 60I(8), a fewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a 6 (cynlluniau datblygu strategol); Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 62(6A), a fewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a 11 (cynlluniau datblygu lleol); gweler hefyd Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 61(2)(a).

⁵² Gweler **para 5.28** uchod.

⁵³ Gweler **para 5.59** uchod.

mae i strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru “Cymraeg 2050” oblygiadau pwysig ar gyfer defnydd tir, yn enwedig effaith patrwm datblygu ar gynladwyedd cymunedau Cymraeg naturiol. Rhaid sicrhau bod ystyriaeth effeithlon o’r oblygiadau hynny’n rhan integredig o’r broses cynllunio.

- 5.108 Cytunodd Huw Williams hefyd, gan nodi bod y cynnig yn parhau â’r sefyllfa bresennol, ond ei fod yn gliriach. Cytunodd sawl ymgynghorai ond dim ond ar y sail bod y byddai cafeatau ynglŷn â’r pwys i’w roi ar ystyriaethau eraill.
- 5.109 Cafwyd ymatebion o sylwedd i’r cynnig hwn gan Ms Meri Huws (Comisiynydd y Gymraeg) a chan Mr Owain Wyn (Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).
- 5.110 Awgrymodd Ms Huws fod y gofyniad i roi sylw i effaith debygol, os oes un, arfer swyddogaeth ar ddefnyddio’r Gymraeg yn rhy gyfyngedig; ac y dylai geiriad y ddyletswydd fod yn nes at eiriad y gofynion ynglŷn â’r safonau llunio polisi yn Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015, a wnaed o dan adran 29 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 5.111 Mae Rheoliadau 2015 yn rhagnodi deg safon i lywio’r gwaith o gomisiynu ymchwil, cyhoeddi dogfennau ymgynghori, a llunio polisiau newydd, ac maent yn gymwys i weithgareddau o’r fath pan gânt eu cyflawni gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol, ymhlith eraill⁵⁴ – a allai gynnwys llunio’r cynllun datblygu. Ond nid ydynt yn ymwneud â gwneud penderfyniadau dewisol gan gyrrff o’r fath – gan gynnwys penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatadau eraill. Rydym o’r farn ei bod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru baratoi canllawiau ar y dehongliad priodol o’r gofyniad i roi sylw i effaith gwneud penderfyniadau ar y Gymraeg; ac mae llunio Nodyn Cyngor Technegol TAN 20, *Cynllunio a’r Gymraeg* – a ddiweddarwyd fwyaf diweddar ym mis Hydref 2017 – yn ddefnyddiol yn hyn o beth. Efallai y bydd fersiwn o TAN 20 yn y dyfodol yn cynnwys cyngor wedi’i baratoi’n debyg i’r hyn a geir yn Rheoliadau 2015; ond mae rhagnodi safonau o’r fath mewn deddfwriaeth sy’n gymwys yn benodol i benderfyniadau cynllunio yn ymddangos yn amhriodol.
- 5.112 Tynnodd Ms Huws sylw hefyd at y diffyg tystiolaeth ynglŷn ag effaith penderfyniadau cynllunio ar ddefnyddio’r Gymraeg. Rydym yn deall y pryder hwnnw, ond rydym o’r farn y dylai monitro o’r fath gael ei annog mewn canllawiau ac fel arfer da, yn hytrach na bod yn ofynnol drwy ddeddfwriaeth.
- 5.113 Nododd Mr Wyn y bydd rôl y system gynllunio o ran sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yn amrywio rhwng gwahanol ardaloedd. Tynnodd sylw at y canllawiau yn TAN 20 sy’n cydnabod y cydsyniad o “ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol”, gan ddadlau y dylai’r Bil roi grym statudol i gysyniad o’r fath, gan ei gwneud yn ofynnol i ystyriaeth “arbennig” gael ei rhoi i faterion ieithyddol mewn ardaloedd o’r fath. Rydym o’r farn bod hyn, hefyd, yn fater sy’n fwy addas ar gyfer canllawiau yn hytrach na deddfwriaeth – yn bennaf am y byddai angen llunio ffiniau ardaloedd o’r fath er mwyn gallu gweithredu gofyniad o’r fath, a fyddai, yn ddiau, ymhell o fod yn dasg syml.
- 5.114 Tynnodd rhai ymgynghoreion sylw penodol at broblemau posibl pe bai rheoli hysbysebu awyr agored yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd a gynigir. Fodd bynnag,

⁵⁴ Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Atodlen 6.

yr hyn a gynigir yw gofyniad yn unig i roi sylw i effaith penderfyniad ar ddefnyddio'r Gymraeg.⁵⁵ Felly, nid yw'n debyg i'r sefyllfa sy'n gymwys yn y Gaeltacht (y rhan o Weriniaeth Iwerddon lle mae Gwyddeleg yn cael ei siarad) o bell ffordd, pan fo caniatâd tybiedig ar gyfer hysbysebion ond yn gymwys os ydynt mewn Gwyddeleg, neu'n ddwyieithog gan roi blaenoriaeth i'r testun Gwyddeleg.⁵⁶

- 5.115 Anghytunodd Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru, ar y sail y gallai'r cynnig arwain at ganlyniadau annymunol, gan gynnwys gwahaniaethu posibl.
- 5.116 Rydym eisoes wedi argymhell mai dim ond i awdurdodau cynllunio, paneli cynllunio strategol a Gweinidogion Cymru y dylai'r ddyletswydd i roi sylw i'r cynllun datblygu ac unrhyw ystyriaethau perthnasol fod yn gymwys, ac nid i gyrff cyhoeddus yn gyffredinol. Byddai'r un pwynt yn gymwys mewn perthynas â'r cynnig hwn.
- 5.117 Mae dull gweithredu tebyg hefyd yn gymwys mewn perthynas â'r swyddogaethau y dylai'r ddyletswydd ynglŷn â'r Gymraeg gael ei hatodi iddynt, er mwyn osgoi ymgyfreitha annheilwng. Felly, rydym o'r farn y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys i arfer pob swyddogaeth o dan y Bil ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau am dystysgrifau, neu hawliadau digolledu.

Argymhelliad 5-5.

Argymhellwn y dylai darpariaeth gael ei chynnwys yn y Bil i'r perwyl canlynol:

- (1) **mae'n rhaid i'r ystyriaethau perthnasol, y mae'n rhaid i awdurdod cynllunio, panel cynllunio strategol neu, yn ôl y digwydd, Weinidogion Cymru roi sylw iddynt (yn unol ag Argymhelliad 5-3) wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod –ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau am dystysgrifau, neu hawliadau digolledu – gynnwys effaith debygol, os oes un, arfer y swyddogaeth honno ar ddefnyddio'r Gymraeg, i'r graddau y mae hynny yn berthnasol i arfer y swyddogaeth honno; ond**
- (2) **ni fydd y ddyletswydd i ystyried effaith arfer swyddogaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithio ar y canlynol:**
 - **p'un a oes rhaid rhoi sylw i ystyriaeth arall wrth arfer y swyddogaeth honno neu**
 - **y pwys a roddir ar unrhyw ystyriaeth o'r fath wrth arfer y swyddogaeth honno.**

Byddai darpariaeth o'r fath yn disodli 70(2)(aa) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac adrannau 60B(2), 60I(8), 62(6A) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

⁵⁵ A gweler TAN 20, adran 4.

⁵⁶ Rheoliadau Cynllunio a Datblygu 2001, erthygl 6(2)(b)(v) (hysbysebion fel "datblygu eithriedig").

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL PENODOL (3): POLISI LLYWODRAETH CYMRU

Cynigiwyd dros dro y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil i'r perwyl y dylai'r ystyriaethau perthnasol, y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw iddynt wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod, gynnwys polisiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir, i'r graddau y maent yn berthnasol i arfer y swyddogaeth honno; ond na ddylai'r ddyletswydd i ystyried polisiau Llywodraeth Cymru effeithio ar b'un a oes rhaid rhoi sylw i unrhyw ystyriaeth arall wrth arfer y swyddogaeth honno na'r pwys i'w roi ar unrhyw ystyriaeth o'r fath wrth arfer y swyddogaeth honno (Cwestiwn 5-6 o'r Ymgynghoriad).

- 5.118 Ochr yn ochr â Chynllun Gofodol Cymru a'r Fframwaith, mae polisiau cyhoeddedig Llywodraeth Cymru, ac yn benodol *Polisi Cynllunio Cymru* – sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd, yn fwyaf diweddar ym mis Tachwedd 2016 – a'r nodiadau cyngor technegol (TANs) yn cael dylanwad enfawr o ran rhoi'r sail bolisi dros lunio cynllun a gwneud penderfyniadau.
- 5.119 O ran statws polisi'r Llywodraeth i lunio cynlluniau, mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol, wrth baratoi cynllun datblygu lleol, fod yn rhaid i awdurdod cynllunio yng Nghymru roi sylw i "bolisiau cenedlaethol cyfredol" (ymadrodd nas diffinnir).⁵⁷ Ond nid oes dyletswydd gyfatebol mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau cynllunio, nac arfer unrhyw swyddogaethau eraill o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 na Deddf Adeiladau Rhestredig 1990.
- 5.120 Fodd bynnag, mae'r llysoedd wedi nodi'n glir bod datganiadau polisi'r Ysgrifennydd Gwladol (yn Lloegr) yn ystyriaethau perthnasol y dylid rhoi sylw iddynt wrth ystyried canlyniad cais cynllunio neu apêl cynllunio, hyd yn oed os nad ydynt yn disodli'r flaenoriaeth a roddir gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i'r cynllun datblygu statudol.⁵⁸ Byddai angen i bolisiau cynllunio Llywodraeth Cymru gael eu hystyried yn yr un modd mewn perthynas ag arfer unrhyw swyddogaeth gynllunio arall sy'n berthnasol.
- 5.121 Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd gennym, o ystyried bod polisiau cynllunio Llywodraeth Cymru mor bwysig wrth weithredu'r system gynllunio o ddydd i ddydd, ei bod yn ymddangos yn rhyfedd na chyfeirir atynt ar wyneb Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel ystyriaeth i'w hystyried.
- 5.122 Felly, ystyriwyd dros dro y dylai'r Bil, fel yn achos y Gymraeg (uchod) nodi y dylai polisiau o'r fath, i'r graddau y maent yn berthnasol, fod ymhlith y materion y mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus roi sylw iddynt wrth arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Cod Cynllunio.
- 5.123 Ymatebodd 43 o ymgynghoreion i'r cwestiwn hwn; roedd 41 yn cytuno.
- 5.124 Awgrymodd Cymorth Cynllunio Cymru a Chymdeithas y Cyfreithwyr y byddai'n ddefnyddiol pe bai cwmpas y term "polisi Llywodraeth Cymru" yn cael ei egluro.

⁵⁷ Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 62(5). A gweler *R (Persimmon Homes Ltd) v Vale of Glamorgan Council* [2010] EWHC 535 (Admin), yn [20], [118].

⁵⁸ *Gransden (E C) Ltd v Secretary of State* (1987) 54 P&CR 86 yn ôl Woolf J ar dud 87; *Hopkins Homes v Secretary of State; Cheshire East BC v Secretary of State* [2017] UKSC 37, PTRS 623, yn [21].

Awgrymodd y cyntaf y dylai olygu Polisi Cynllunio Cymru, TANs a datganiadau gan Weinidogion”, ond byddai'n aneglur, yn anochel, pa ddatganiadau a gâi eu cynnwys, a pha bwys y dylid ei roi ar ddatganiadau a wnaed beth amser yn ôl. Mae hynny'n wir yn tynnu sylw at y broblem a fyddai'n rhan annatod o unrhyw ymgais i ddiffinio'r term.

- 5.125 Rydym o'r farn y dylai'r ddyletswydd gael ei chyfyngu'n benodol i bolisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir, er mwyn ei gwneud yn glir nad oes angen ystyried polisi'r Llywodraeth ar faterion eraill o reidrwydd – ond gallai fod yn berthnasol mewn achos penodol, wrth gwrs. A dim ond i'r graddau y maent yn berthnasol i arfer y swyddogaeth dan sylw y dylai polisiâu o'r fath gael eu hystyried. Bydd penderfynu pa bolisïau sy'n berthnasol yn parhau i fod yn ymarfer i'r penderfynwr, fel y mae ar hyn o bryd.
- 5.126 Ond rydym yn derbyn, fel yn achos rhai o'r dyletswyddau eraill sy'n cael eu hystyried eisoes, mai dim ond ar awdurdodau cynllunio, paneli cynllunio strategol a Gweinidogion Cymru y dylid gosod y ddyletswydd, yn hytrach nag ar gyrrff cyhoeddus yn gyffredinol.
- 5.127 Yn amodol ar y pwynt hwnnw, rydym o'r farn y dylid bwrw ymlaen â'n cynnig. Yn ein barn ni, nid yw'n gyfystyr ag ehangu'r set bresennol o ddyletswyddau (yn adran 70 ar hyn o bryd ac mewn manau eraill yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) i roi sylw i ystyriaethau perthnasol, gan fod y llysoedd eisoes wedi derbyn y dylai polisiâu'r Llywodraeth gael eu hystyried sut bynnag. Ond byddai'n eglurhad defnyddiol o'r gyfraith bresennol.

Argymhelliad 5-6.

Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil i'r perwyl canlynol:

- (1) **mae'n rhaid i'r ystyriaethau perthnasol, y mae'n rhaid i awdurdod cynllunio, panel cynllunio strategol neu Weinidogion Cymru roi sylw iddynt (yn unol ag Argymhelliad 5-4) wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod – ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau am dystysgrifau, neu hawliadau digolledu – gynnwys polisiâu Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir, i'r graddau y maent yn berthnasol i arfer y swyddogaeth honno; ond**
- (2) **na ddylai'r ddyletswydd i ystyried polisiâu Llywodraeth Cymru effeithio ar y canlynol:**
 - **p'un a oes rhaid rhoi sylw i unrhyw ystyriaethau eraill wrth arfer y swyddogaeth honno, neu**
 - **y pwys a roddir ar unrhyw ystyriaeth o'r fath wrth arfer y swyddogaeth honno.**

EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY

Cynigiwyd dros dro nad oes angen i'r Bil gynnwys darpariaeth, sy'n cyfateb i adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, i'r perwyl bod yn rhaid i unrhyw gorff cyhoeddus sy'n arfer rhai o'r swyddogaethau o dan y Cod wneud hynny fel rhan o'i ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy (Cwestiwn 5-7 o'r Ymgynghoriad).

Y gyfraith bresennol

- 5.128 Yn y Papur Ymgynghori, tynnwyd sylw at adran 3(1) o Ddeddf Llesiant 2015, sy'n darparu bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus "ymgymryd â datblygu cynaliadwy". Mae hynny'n cynnwys nodi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf tuag at gyflawni pob un o'r nodau llesiant a nodir yn adran 4 o'r Ddeddf honno, a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny, ond nid yw'r ddyletswydd wedi'i chyfyngu i amcanion o'r fath.⁵⁹ Nid yw adran 3 yn rhoi swyddogaeth newydd i gyrrff cyhoeddus; yn hytrach, mae'n gosod dyletswydd newydd arnynt i arfer y swyddogaethau sydd ganddynt eisoes fel rhan o'u dyletswydd i ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Ac ymhlith y swyddogaethau hynny y mae eu holl amrywiol bwerau a dyletswyddau o dan y Deddfau cynllunio.
- 5.129 Yna, nodwyd gennym fod adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn glir bod y dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf Llesiant yn gymwys yn benodol i'r canlynol
- 1) cyrff cyhoeddus yn arfer swyddogaethau o dan Ran 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio,
 - 2) cyrff cyhoeddus yn arfer swyddogaethau o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sy'n ymwneud â chynllunio datblygu.
- 5.130 Nid yw adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ychwanegu dim at y ddyletswydd o dan adran 3 o'r Ddeddf Llesiant. Mae'n nodi nad yw egwyddor datblygu cynaliadwy yn newid p'un a ddylid rhoi sylw ynghylch a yw mater penodol yn "material" i benderfyniad cynllunio penodol (gweler uchod), na'r pwys a roddir ar unrhyw fater o'r fath. Ac mae'r ddyletswydd fwy cyffredinol o dan adran 3 o Ddeddf Llesiant 2015 yn gymwys yn yr un modd i gyflawni unrhyw swyddogaethau cynllunio o dan unrhyw Ddeddf – gan gynnwys Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, Deddf Sylweddau Peryglus 1990, a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 1990.

Newid arfaethedig

- 5.131 Yn ein barn ni, nid oedd yn fuddiol cynnwys darpariaeth benodol yn y Bil Cynllunio a oedd ond yn cysylltu rhai o'r swyddogaethau i'w cyflawni o dan y Ddeddf Llesiant, gan y byddai'r ddyletswydd o dan adran 3 o'r Ddeddf honno yn gymwys i arfer swyddogaethau o'r fath sut bynnag.
- 5.132 Byddai'r bosibl i'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, ond wedi'i hehangu fel y byddai'n gymwys yn amlwg i arfer unrhyw

⁵⁹ Am y diffiniad o "corff cyhoeddus" yn y Ddeddf Llesiant, gweler **para 5.xx** uchod.

swyddogaeth gan gorff cyhoeddus o dan y Cod. Yn ein barn ni, ni fyddai newid o'r fath yn arwain at unrhyw faich ychwanegol ar awdurdodau cynllunio nac eraill yn ymarferol, ond byddai'n gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy eglur.

- 5.133 Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod nifer o statudau eraill (er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol) yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus, wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau, i roi sylw i amrywiol faterion.⁶⁰ At ei gilydd, daethom i'r casgliad na fyddai'n fuddiol pe bai'r Bil Cynllunio yn cyfeirio at bob un o'r dyletswyddau hyn, yn ychwanegol at y cyfeiriad sy'n bodoli eisoes yn y statud dan sylw. Yn lle hynny, awgrymwyd gennym y dylid cyfeirio at fodolaeth y dyletswyddau hynny mewn canllawiau.
- 5.134 Ni welsom unrhyw reswm amlwg pam roedd y ddyletswydd o dan adran 3 o'r Ddeddf Llesiant (er ei bod wedi'i geirio ychydig yn wahanol) yn wahanol mewn egwyddor i'r dyletswyddau eraill hynny. Felly, dros dro, ni welsom unrhyw reswm dros ailddatgan adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn y Bil, naill ai ar ei ffurf bresennol neu ar ffurf estynedig er mwyn bod yn gymwys yn benodol i arfer swyddogaethau eraill o dan y Cod.

Ymateb

- 5.135 Ymatebodd 43 o ymgynghorwyr i'r cwestiwn hwn. Cytunodd 27 â'n cynnig; roedd saith yn ansicr; ac naw yn anghytuno.

- 5.136 Nododd Allan Archer:

I think, although it is bound to raise an eyebrow, being such a recent legislative provision, that you have presented a cogent rationale for not carrying forward the Well-being cross-reference.

- 5.137 Fodd bynnag, pwysleisiodd yntau ac eraill fod yn rhaid tynnu sylw at y ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn ddigonol a'i phwysleisio mewn polisi a chanllawiau cenedlaethol.

- 5.138 Nododd Cyngor y Bar, ar y llaw arall:

The rationale for this omission appears to be at odds with what we understand is one of the chief purposes of the Codification exercise, namely better presentation and simplification in order to enable the public to understand the planning system more readily as well as being comprehensive... The duty to carry out sustainable development is an important one, and may not be well-understood by members of the public... Given the importance of ensuring that the Code is comprehensive, we would suggest that there is real merit in re-stating the statutory duty.

- 5.139 Roedd nifer o ymgynghorwyr eraill yn anghytuno â'r cynnig i'w hepgor, gan wneud y pwynt mwy cyffredinol bod y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy yn ganolog i gynllunio, ac felly y dylid cadw'r croesgyfeiriad at y ddyletswydd o dan y Ddeddf Llesiant. Nododd Huw Williams a oedd yn aelod o'r Grŵp Cynghori Annibynnol yr oedd ei

⁶⁰ Gweler **paragraffau 5.19 i 5.25** uchod.

adroddiad wedi arwain at ddeddfu Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 “sustainable development has been a feature of planning permission policy and plan preparation for many years. As such it must be considered in the ‘planning balance’ when planning decisions, particularly decisions on planning applications, are considered.”

5.140 Rydym yn cydnabod bod egwyddor datblygu cynaliadwy yn ganolog i'r system gynllunio. Mae paragraff agoriadol *Polisi Cynllunio Cymru*, er enghraifft, yn nodi:

Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (PCC) yn disgrifio polisiau Llywodraeth Cymru...Mae'n trosi'n hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy i'r system gynllunio er mwyn chwarae rôl briodol o ran symud tuag at gynaliadwyedd.⁶¹

5.141 Ond nodwn nad yw adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn gwneud datblygu cynaliadwy yn bwysicach na'r cynllun datblygu.

5.142 Felly, rydym yn derbyn bod achos dros gyfeiriad penodol at ddatblygu cynaliadwy ar wyneb y Bil. Ac rydym yn deall y ddadl y byddai o gymorth i ddefnyddwyr pe bai cyfeiriad at bob dyletswydd sy'n ymwneud â gweithredu'r system gynllunio mewn un man.

5.143 Ar y llaw arall, am y rhesymau a ystyrir isod mewn perthynas ag Argymhelliad 5-8, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'n briodol cynnwys rhestr o ddyletswyddau o'r fath yn y Bil; ac nid oes unrhyw reswm dros drin y ddyletswydd cynaliadwyedd yn wahanol. Yn benodol, os mai dim ond rhai dyletswyddau a grybwyllir, efallai y bydd eraill yn cael eu hystyried yn llai pwysig; ac os crybwyllir dyletswydd benodol mewn rhai statudau, gellir dadlau bod modd ystyried nad yw mor gymwys mewn perthynas â statudau eraill.

5.144 At hynny, er ein bod wedi argymhell y dylid cyfeirio at ddwy ystyriaeth benodol yn y Bil – yr effaith ar y Gymraeg, a pholisiau Llywodraeth Cymru – nid yw'r naill na'r llall yn destun darpariaeth sy'n uniongyrchol gymwys mewn statud arall. Nid yw'r un peth yn wir am y ddyletswydd datblygu cynaliadwy, sy'n destun Deddf Llesiant 2015 ac a fydd yn parhau felly.

5.145 Nodwn hefyd yr arfer cyffredinol gan yr Arolygiaeth Gynllunio, a nodwyd gan Mr Williams a chan Gymdeithas y Cyfreithwyr, i gyfeirio at gynaliadwyedd ar ddiwedd penderfyniadau ar apeladau cynllunio. Fodd bynnag, yn ddiddorol ddigon, cyfeirir yn uniongyrchol at y ddyletswydd o dan adran 3 o Ddeddf Llesiant 2015, yn hytrach nag adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae hynny'n awgrymu nad oes angen cyfeiriad at Ddeddf Llesiant 2015 mewn deddfwriaeth gynllunio.

5.146 Felly, at ei gilydd, credwn o hyd nad oes angen cyfeirio'n benodol at gynaliadwyedd na Deddf Llesiant 2015 yn y Bil Cynllunio, cyhyd â bod cyfeiriadau amlwg ato yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

⁶¹ PCC, Argraffiad 9, Tachwedd 2016, para 1.1.1.

Argymhelliad 5-7.

Argymhellwn nad oes angen i'r Bil gynnwys darpariaeth, sy'n cyfateb i adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, i'r perwyl bod yn rhaid i unrhyw gorff cyhoeddus sy'n arfer rhai o'r swyddogaethau o dan y Cod wneud hynny fel rhan o'i ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy.

DYLETSWYDDAU O DAN GYNLLUNIAU STATUDOL ERAILL

Cynigiwyd dros dro y dylid cynnwys cyfres o ddarpariaethau cyfeirio at ddyletswyddau mewn deddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth gynllunio a allai fod yn berthnasol i arfer swyddogaethau o dan y Cod mewn manau priodol mewn canllawiau gan Weinidogion (Cwestiwn 5-8 o'r Ymgynghoriad).

- 5.147 Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd, yn ogystal â'r dyletswyddau sy'n uniongyrchol gymwys i arfer swyddogaethau gan benderfynwyr o dan y Deddfau cynllunio, fod nifer o statudau eraill yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus sy'n uniongyrchol berthnasol i arfer y swyddogaethau hynny. Rydym wedi eu hamlinellu yn gynharach yn y Bennod hon.⁶²
- 5.148 Nodwyd gennym, o ystyried nad yw llawer sy'n defnyddio deddfwriaeth gynllunio yn ymwybodol o rai, neu bob un, o'r dyletswyddau hynny, byddai'n ymddangos yn briodol ar yr olwg gyntaf eu hailddatgan yn y Bil. Fodd bynnag, o wneud hynny, byddai'n ychwanegu at hyd y Bil, a gallai arwain at nifer o broblemau, gan gynnwys y canlynol:
- 1) i ddechrau, byddai'n dyblygu'r darpariaethau yn y statudau nad ydynt yn ymwneud â chynllunio, ond byddai'n arwain at risg, pan fyddai'r statudau hynny yn cael eu diweddarau, eu diwygio neu eu disodli, na fyddai'r Ddeddf Cynllunio yn cael ei diwygio yn yr union ffordd;
 - 2) gallai fod yn anodd gwybod pa ddyletswyddau y dylid eu cynnwys mewn rhestr o'r fath, a pha rai y dylid eu hepgor;
 - 3) byddai'n arwain at risg bod un neu ragor o ddyletswyddau o'r fath yn cael eu hepgor yn anfwriadol neu fel arall, yn enwedig wrth i ddyletswyddau pellach gael eu hychwanegu at deddfwriaeth yn y dyfodol – ac o ganlyniad, efallai y

⁶² Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, adrannau 16, 66, 72 (adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth); Deddf Llesiant 2015, a 3 (datblygu cynaliadwy); Deddf Cefn Gwlad 1968, a 11 (cefn gwlad); Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a 11A (parciau cenedlaethol); Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a 85 (AHNEau); Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a 6(1) (bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau); Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, rheoliad 9; Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, rheoliad 18; Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017; Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, a 17; Deddf Cydraddoldeb 2010, a 149; gweler **paragraffau 5.18 i 5.27**.

câi dyletswyddau nas crybwyllir eu hanwybyddu dros amser neu o leiaf y byddai llai o bwys yn cael ei roi arnynt;

- 4) efallai yr ystyrid bod trefn unrhyw restr o'r fath yn awgrymu bod mwy o bwys yn cael ei roi ar rai dyletswyddau yn hytrach nag eraill.
- 5.149 Yn ail, byddai modd peidio ag ailadrodd geiriad pob dyletswydd, ond yn syml, gynnwys darpariaeth "gyfeirio" sy'n nodi ble mae'r ddyletswydd ("mae adran 70 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 11 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968 [etc]"). Byddai hynny'n dal i arwain at y rhan fwyaf o'r problemau uchod, a hefyd byddai'n golygu bod yn rhaid i ddefnyddwyr y Ddeddf Cynllunio edrych ar Ddeddf arall i ddod o hyd i union eiriad y ddyletswydd.
- 5.150 Felly, at ei gilydd, er ein bod wedi ystyried (ac wedi awgrymu yn ein Papur Cwmpasu) y byddai'n werth gweithredu yn unol â'r ail dull a amlinellir uchod, ar ôl ailystyried, rydym o'r farn y gallai cynnwys rhestr o'r fath yn y Bil achosi cynifer o broblemau ag y byddai'n eu datrys.
- 5.151 Felly, roeddem o'r farn y byddai'n fwy priodol ystyried cynnwys cyfres o ddarpariaethau sy'n cyfeirio at ddyletswyddau mewn deddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth gynllunio yn y canllawiau sy'n rhan o'r Cod – ac, o bosibl, sylwadau priodol sy'n amlinellu perthnasedd tebygol pob categori at amrywiol fathau o swyddogaethau cynllunio.
- 5.152 O blith y 37 o ymgylgoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cytunodd 36. Gwnaeth Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol (Cymru) y sylw synhwyrol y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn cadw rhestr gyfredol o'r dyletswyddau dan sylw ar ei gwefan cynllunio a thrwy'r Porth Cynllunio.
- 5.153 Nododd Cyngor y Bar y byddai'r dull gweithredu hwn yn gwneud y darpariaethau yn agored i newidiadau mewn canllawiau gan Weinidogion, ac awgrymodd y dylid cynnwys y rhestr o ddyletswyddau perthnasol mewn dogfen â pharhad ffurfiol, megis Atodlen i'r prif Fil Cynllunio.
- 5.154 Am y rhesymau a nodir uchod, credwn o hyd mai canllawiau, yn hytrach na deddfwriaeth, yw'r man mwyaf priodol i gyfeirio at ddyletswyddau yn yr achos hwn, sydd hefyd yn ei gwneud yn bosibl i roi sylwadau ar berthnasedd y ddyletswydd dan sylw i arfer swyddogaethau cynllunio.

Argymhelliad 5-8.

Argymhellwn y dylid cynnwys cyfeiriadau at y dyletswyddau mewn deddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth gynllunio a all fod yn berthnasol i arfer swyddogaethau o dan y Cod mewn manau priodol mewn canllawiau gan Weinidogion, ac y dylent fod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefan y Porth Cynllunio.

CLODDIO AM LO

- 5.155 Mae adran 53(3) o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994 – a gafodd ei deddfu ar adeg preifateiddio'r diwydiant glo – yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n llunio cynigion i'w cynnwys mewn cais cynllunio i gloddio am lo, adfer tir ar ôl cloddio, a gweithrediadau cysylltiedig wneud y canlynol:
- 1) rhoi sylw i ddymunoldeb gwarchod harddwch naturiol, gwarchod fflora a ffawna a nodweddion daearegol neu ffiseograffyddol o ddiddordeb arbennig, a diogelu safleoedd, adeiladau, strwythurau a gwrthrychau o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol neu archaeolegol.
 - 2) lliniaru effeithiau andwyol eu cynigion ar fflora, ffawna [etc].
- 5.156 At hynny, pan fydd awdurdod cynllunio yn ystyried cais cynllunio am gynigion cloddio etc o'r fath, mae'n ofynnol o dan adran 53(2) o Ddeddf 1994 roi sylw i ddymunoldeb gwarchod harddwch naturiol ac ati, a ph'un a yw'r ymgeiswyr wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 53(3).
- 5.157 Nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori y bydd yn ofynnol ar y cyfan i awdurdod cynllunio o dan ddeddfwriaeth arall – gan gynnwys y Ddeddf Llesiant – roi sylw i'r materion a grybwyllir yn adran 53 o Ddeddf 1994. Hyd yn oed lle nad oes dyletswydd o'r fath arno'n benodol, bydd yn ddyletswydd gyffredinol arno, fel y nodwyd eisoes, i ystyried popeth sy'n berthnasol – sy'n debygol o gynnwys y materion hynny. At hynny, mae'n anamgyffredadwy na fydd gan y cynllun datblygu bolisiâu perthnasol ar y materion hynny – y bydd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio eu hystyried wrth gwrs.
- 5.158 Felly, yn ein barn ni, nid oedd adran 53(2) (y ddyletswydd ar yr awdurdod cynllunio) yn ychwanegu dim. At hynny, awgrymwyd gennym, pe bai'n ofynnol i'r awdurdod ystyried y materion hynny wrth asesu cynigion, y byddai'n rhaid i'r rhai sy'n llunio'r cynigion eu hystyried yn yr un modd – a naill ai osgoi unrhyw effeithiau andwyol neu eu lliniaru hyd y gellir. Felly, byddai adran 53(3) yn ddiangen. Felly, awgrymwyd gennym nad oedd angen atgynhyrchu unrhyw ran o adran 53 yn y Bil newydd.
- 5.159 O blith y 32 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cytunodd 23 â hepgor adran 53; cytunodd chwech â hepgor adran 53(2) (y ddyletswydd ar awdurdodau cynllunio) ond nid adran 53(3) (y ddyletswydd ar weithredwyr mwneu).
- 5.160 Yn ogystal â'r dyletswyddau ar awdurdod cynllunio y cyfeirir atynt uchod, bydd unrhyw gais cynllunio am weithrediad cloddio sylweddol yn ddarostyngedig i ofynion Rheoliadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017, sy'n gweithredu gofynion Cyfarwydddeb EEC 85/337/EEC yng nghyfraith y DU. Mae'r rhain yn dosbarthu pob cynnig ar gyfer cloddio am lo brig a chloddio sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd oherwydd eu natur, eu maint neu eu lleoliad yn ddatblygiad Atodlen 2, sy'n gofyn am asesiad. Mae Atodlen 4 i'r Rheoliadau hynny sy'n pennu'r materion i'w cynnwys mewn asesiad, sy'n cynnwys pob mater y cyfeirir ato yn adran 53 o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994, ac eraill, yn llawer manylach.
- 5.161 Mae'n dilyn y bydd unrhyw gynnig a chais cynllunio sy'n ddarostyngedig i ofynion adran 53 o Ddeddf 1994 hefyd yn ddarostyngedig i ofynion llawer manylach

Rheoliadau 2017 – o ran paratoi asesiad o effeithiau'r cynnig ac o ran yr awdurdod cynllunio yn ystyried yr effeithiau hynny. Felly, credwn o hyd fod adran 53 o Ddeddf 1994 yn gwbl ddiangen, ac nad oes angen ei hatgynhyrchu.

Argymhelliad 5-9.

Argymhellwn y dylid diddymu adran 53 o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994 (dyletswyddau amgylcheddol mewn cysylltiad â chynllunio).

DIBEN STATUDOL AR GYFER RHEOLAETH GYNLLUNIO

- 5.162 Yng ngoleuni'r cynigion blaenorol ym Mhennod 5 o'r Papur Ymgynghori, cynigiwyd dros dro nad oes angen i'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n esbonio diben y system gynllunio yng Nghymru.
- 5.163 Awgrymwyd gennym yn y Papur Cwmpasu y gallai fod yn briodol i'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n nodi diben statudol ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru.⁶³ Fodd bynnag, yn y Papur Ymgynghori, roeddem o'r farn na fyddai angen darpariaeth o'r fath, yng ngoleuni'r casgliad o ddyletswyddau statudol eraill roeddem yn eu cynnig ac y byddai cynnwys diben statudol ochr yn ochr â'r dyletswyddau amrywiol hynny o bosibl yn achosi dyblygu diangen a di-fudd a gwrthdaro posibl.
- 5.164 O blith y 35 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cytunodd 26; nododd nifer o awdurdodau cynllunio y gallai datganiad o ddiben y system gynllunio arwain at gryn dipyn o ddadlau a gwahaniaeth barn o ran yr egwyddorion a'r geiriad manwl; a gallai barn llywodraethau â daliadau gwleidyddol gwahanol fod yn wahanol, felly gallai fod newidiadau rheolaidd o bosibl. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr y byddai'n fwy eglur pe bai'r Cod yn cynnwys adran drosolwg ar y dechrau (fel gyda'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth fodern y Cynulliad) – ond nodwn fod darpariaeth o'r fath yn nodi cynnwys y darn o ddeddfwriaeth yn hytrach na'i ddiben cyffredinol fel arfer.
- 5.165 Roedd rhai yn anghytuno. Awgrymodd Cyngor Caerdydd a Chyngor Caerffili a POSW De-orllewin Cymru mai diben cynllunio o bosibl yw "the management and delivery of development in the public interest in a sustainable manner that takes account of its impact on people, heritage and natural assets, and other material considerations". Mae'n debyg i'r hyn a awgrymwyd gan Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr: "the achievement of sustainable development in the public interest, which involves balancing environmental, social and economic interests". Tynnodd Cyngor y Bar sylw at Erthygl L 101-2 o'r *Code de l'Urbanisme* yn Ffrainc ac a II-1-1 o'r *Baugesetzbuch* yn yr Almaen; y mae'r naill a'r llall yn ddatganiad o'r egwyddorion a fydd yn llywio awdurdodau cyhoeddus, a nodir yn fanwl dros ben.
- 5.166 Rydym wedi dod i'r casgliad y byddai unrhyw ddatganiad o ddiben a oedd yn manylu o gwbl yn arwain at wneud datganiadau o'r polisi i'w ddilyn gan y system rheolaeth gynllunio – fel y gwna Cod Ffrainc a Chod yr Almaen. Ni fyddai datganiadau a oedd yn osgoi gwneud datganiadau o bolisi, megis y datganiad cyntaf y cyfeirir ato uchod,

⁶³ Papur Ymgynghori, paragraffau 5.4 i 5.8, 5.119 i 5.121.

yn rhoi unrhyw wybodaeth o gwbl. O dan system y DU, caiff polisi ei bennu mewn dogfennau polisi yn hytrach na'i rewi mewn deddfwriaeth. Yn gynharach yn y bennod hon, rydym wedi argymhell y dylid cynnwys dyletswyddau i roi sylw i bolisiau o'r fath, naill ai yn y cynllun datblygu neu mewn dogfennau polisi eraill sy'n gyfystyr ag ystyriaethau perthnasol.

- 5.167 Felly, nid ydym yn argymhell y dylid cynnwys datganiad ffurfiol ynghylch diben y system gynllunio yn y Bil.

Argymhelliad 5-10.

Yng ngoleuni'r cynigion blaenorol yn y Bennod hon, nid ydym yn argymhell y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n esbonio diben y system gynllunio yng Nghymru.

GWEINYDDU'R SYSTEM GYNLLUNIO

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynigiwyd dros dro y dylid cyfeirio at bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar apeliadau, cynnal ymchwiliadau a chyflawni swyddogaethau tebyg eraill yn y Cod Cynllunio fel "arolygwyr" neu "archwilwyr", ond yn y naill achos neu'r llall yn y fath fodd ag sy'n ei gwneud yn glir nad oedd hyn yn atal Gweinidogion Cymru rhag penodi person heblaw un o gyflogeion yr Arolygiaeth Gynllunio at ddiben penodol (Cwestiwn 5-11 o'r Ymgynghoriad).

- 5.168 Enw braidd yn annelwig Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yw "Determination of certain appeals by persons appointed by the [Gweinidogion Cymru]"; a cheir cyfeiriadau eraill, yn enwedig mewn is-ddeddfwriaeth, at "personau penodedig". Ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth arall mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â rôl yr Arolygiaeth Gynllunio yn y system gynllunio. Efallai fod hyn yn annisgwyl, o ystyried ei rôl hollbwysig.
- 5.169 Yn y Papur Ymgynghori, ystyriwyd yn fras p'un a ddylai fod darpariaeth fer yn y Bil, yn dilyn model adran 203 o Ddeddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011 o bosibl, sy'n cydnabod bodolaeth a rôl yr Arolygiaeth Gynllunio. Roedd yr Arolygiaeth wedi awgrymu nad oes angen i'r deddfwriaeth gyfeirio at yr Arolygiaeth yn benodol; yr unig newid dymunol fyddai cyfeiriad at "arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru", yn hytrach na "person a benodir".
- 5.170 Nodwyd gennym fod yr Arolygiaeth Gynllunio yn asiantaeth weithredol a ariennir ar y cyd gan adrannau perthnasol Llywodraeth ganolog yng Nghymru a Lloegr. Nodwyd hefyd y gallai Gweinidogion Cymru, mewn achosion eithriadol, ddymuno penodi rhywun heblaw un o gyflogeion yr Arolygiaeth yn arolygydd ac y gallai gael ei ystyried yn briodol creu corff neu asiantaeth gyfatebol sy'n gweithredu mewn perthynas â Chymru yn unig maes o law.
- 5.171 Yn unol â hynny, awgrymwyd y dylid cyfeirio at y personau hynny a benodir gan Weinidogion Cymru i gyflawni swyddogaethau amrywiol – boed yn gyflogeion yr Arolygiaeth, yn gontractwyr annibynnol neu eraill – mewn deddfwriaeth sylfaenol ac

is-ddeddfwriaeth fel “arolygwyr” yn hytrach na “personau a benodir” er mwyn cydymffurfio ag arfer cyfredol⁶⁴, neu o bosibl fel “archwilwyr”; ond fel arall na ddylid gwneud unrhyw newidiadau.

- 5.172 O blith y 35 o ymgylgoreion a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd 34 yn cytuno y dylid cyfeirio at “persons appointed” fel “arolygwyr” neu “archwilwyr”. Roedd yn well gan 24 “arolygwyr”, yn bennaf ar y sail ei fod yn derm sefydledig; roedd un yn ffafrio “archwilydd”; awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr “asesydd”; ac nid oedd 11 yn ffafrio unrhyw derm.
- 5.173 Fodd bynnag, roedd yr Arolygiaeth yn anghytuno – yn bennaf ar y sail y gallai diwygio'r geiriad i “arolygydd [neu archwilydd] a benodir” ddileu ei gallu i benodi swyddogion cynllunio i gynnal rhai mathau o waith achos (megis apeliadau barnu'n annilys).
- 5.174 Yn ein barn ni, byddai'n hollol bosibl i'r adran ddehongli yn y Bil gynnwys diffiniad o “arolygydd” neu “archwilydd” fel “person a benodir gan Weinidogion Cymru er mwyn cyflawni'r swyddogaeth dan sylw”. Ni fyddai newid o'r fath yn atal swyddog cynllunio, nac yn wir berson annibynnol, rhag cael ei benodi. O ran pa derm y dylid ei ddefnyddio, rydym yn tueddu i gytuno â'r rhai a oedd yn cefnogi'r defnydd o'r term “arolygydd”, gan mai hwn yw'r term sefydledig sy'n debygol o gael ei ddeall yn gyffredinol.
- 5.175 Un enghraifft o ddarpariaeth o'r fath yw adran 77(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n nodi ar hyn o bryd:

Before determining an application referred to him under this section, the Secretary of State shall, if either the applicant or the local planning authority wish, give each of them an opportunity of appearing before, and being heard by a person appointed by the Secretary of State for the purpose.

Byddai hyn wedyn yn cael ei newid i'r canlynol:

Cyn penderfynu ar gais a gyfeirir atynt o dan yr adran hon, bydd Gweinidogion Cymru, os dymuna naill ai'r ymgeisydd neu'r awdurdod cynllunio, roi cyfle i bob un ohonynt ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawriad.

- 5.176 Ceir darpariaethau tebyg mewn nifer o fannau eraill yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.⁶⁵
- 5.177 Yn ein barn ni, byddai hyn yn symleiddio'r ddeddfwriaeth mewn ffordd gymharol fach ond defnyddiol, er mwyn i'r ddeddfwriaeth fod yn unol ag arfer presennol.

⁶⁴ A gweler, er enghraifft, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 59(2).

⁶⁵ Gan gynnwys Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 62ZC, 76D, 76E, 95, 98, 99, 100, 103, 104, 106B, 140, 175, 196, 208, 217, 278, 303A, 322, 322A, 323 a 323A; ac Atodlenni 4D, 6, 7, 9, 14 a 15.

Argymhelliad 5-11.

Argymhellwn y dylid cyfeirio at bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar apeladau, cynnal ymchwiliadau a chyflawni swyddogaethau tebyg eraill yn y Bil Cynllunio fel “arolygwyr”.

Awdurdodau cynllunio lleol heblaw awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol

Cynigiwyd dros dro na ddylai'r Bil gynnwys y darpariaethau a geir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd sy'n galluogi dynodi awdurdodau ardaloedd menter, corfforaethau datblygu trefol ac ymddiriedolaethau gweithredu tai yn awdurdodau cynllunio lleol (Cwestiwn 5-12 o'r Ymgynghoriad).

- 5.178 Gellir dynodi awdurdodau ardaloedd menter, a grëwyd o dan bwerau yn Neddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, yn awdurdodau cynllunio lleol at ddibenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori nad oes yr un ardal fenter wedi cael ei chreu o dan Ddeddf 1980 ers dros 30 mlynedd, ac nad oes yr un awdurdod ardal fenter yng Nghymru a Lloegr erioed wedi cael ei ddynodi'n awdurdod cynllunio lleol (heblaw am un a oedd yn awdurdod cynllunio eisoes). Yn unol â hynny, cynigiwyd y dylid diddymu'r pŵer i ddynodi ardaloedd menter a'r ddarpariaeth (yn adran 6 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) sy'n galluogi dynodi awdurdod ardal fenter yn awdurdod cynllunio.⁶⁶
- 5.179 Nodwyd gennym mai dim ond un gorfforaeth datblygu trefol (Bae Caerdydd) a grëwyd erioed yng Nghymru, yn 1987, ac na chafodd ei dynodi fel yr awdurdod cynllunio lleol. Yn unol â hynny, cynigiwyd y dylid diddymu'r pŵer i greu corfforaeth datblygu trefol a'r ddarpariaeth (yn adran 7 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) sy'n galluogi dynodi corfforaeth o'r fath yn awdurdod cynllunio.⁶⁷
- 5.180 Yn drydydd, nodwyd gennym, er i chwe ymddiriedolaeth gweithredu tai gael eu sefydlu yn y 1990au, fod pob un ohonynt yn Lloegr ac na chafodd yr un ohonynt ei dynodi fel yr awdurdod cynllunio lleol. Yma hefyd, roeddem o'r farn ei bod yn annhebygol na fyddai'r ddarpariaeth sy'n galluogi dynodi ymddiriedolaeth gweithredu tai yn awdurdod cynllunio (yn adran 8 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) byth yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol, ac rydym yn cynnig na ddylid ei chynnwys yn y Bil newydd.
- 5.181 Mae gweddill adran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac Atodlen 1, ond yn gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae adrannau 2A i 2E, 3 a 7A yn gymwys i Lundain yn unig. Mae adran 5 yn ymwneud â'r Norfolk a Suffolk Broads. Mae adran 8A yn gymwys i'r Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau sydd ond yn gweithredu yn Lloegr. Mae'n dilyn nad oes angen i unrhyw un o'r darpariaethau hynny gael eu hailddatgan mewn Cod Cynllunio i Gymru.

⁶⁶ Gweler paragraffau 5.xx ac16.xx.

⁶⁷ Gweler paragraffau 5.xx ac16.xx.

- 5.182 Byddai angen addasu adran 9 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (darpariaethau amrywiol ac atodol ynghylch awdurdodau cynllunio), fel y'u diwygiwyd gan adran 42 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, yn unol â hynny.
- 5.183 O blith y 33 o ymgylgoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 29 ohonynt yn cytuno. Nododd nifer o awdurdodau cynllunio, er enghraifft, nad yw'r gwahanol awdurdodau yn cael eu defnyddio; ac mae ardaloedd menter yn cael eu dyblygu gan ardaloedd a ddynodir o dan Ddeddf Lwfans Cyfalaf 2001. Roedd ychydig yn anghytuno, ar y sail y gallai'r dynodiadau hyn fod yn ddefnyddiol rywbryd yn y dyfodol.
- 5.184 Rydym yn derbyn bod yn rhaid iddi fod yn bosibl mewn theori y gallai Gweinidogion Cymru ddymuno defnyddio un neu ragor o'r dynodiadau hyn yn y dyfodol. Fodd bynnag, credwn o hyd ei bod yn fwy tebygol y gallent hwy (neu awdurdodau cynllunio) ddefnyddio gorchmynion datblygu lleol, neu y byddai'r Cynulliad yn cyflwyno pwerau hollol newydd. Felly, credwn o hyd nad oes angen y categorïau gwahanol hyn o awdurdodau cynllunio "arbennig", ac felly y gellid diddymu'r pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi'r amrywiol fathau o gyrff yn awdurdodau cynllunio.

Argymhelliad 5-12.

Argymhellwn nad yw'r Bil yn cynnwys y darpariaethau a geir yn Rhan 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd gan alluogi dynodi awdurdodau ardaloedd menter, corfforaethau datblygu trefol ac ymddiriedolaethau gweithredu tai yn awdurdodau cynllunio lleol.

Awdurdodau cynllunio: terminoleg

Cynigiwyd dros dro y dylid defnyddio'r term "awdurdod cynllunio" yn y Cod Cynllunio yn lle'r termau "awdurdod cynllunio lleol" ac "awdurdod cynllunio mwynau" mewn deddfwriaeth bresennol (Cwestiwn 5-13 o'r Ymgynghoriad).

- 5.185 Nodwyd gennym fod y term "awdurdod cynllunio lleol" yn ymddangos yn Neddfau Cynllunio 1990, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Deddf Cynllunio 2008, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, a Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2015 drwyddynt draw – a bwriedir ymgorffori pob un ohonynt yn y Cod Cynllunio neu'r Cod Amgylchedd Hanesyddol. Mae'n rhywbeth sydd wedi goroesi o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 yn y bôn, a ddarparodd ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol, awdurdodau cynllunio mwynau, awdurdodau cynllunio gwastraff, awdurdodau cynllunio dosbarth ac awdurdodau cynllunio sirol. Fodd bynnag, yng Nghymru, erbyn hyn dim ond un awdurdod cynllunio a ganiateir mewn unrhyw ardal benodol – a all fod yn awdurdod lleol neu'n awdurdod parc cenedlaethol neu'n fwrdd cynllunio ar y cyd.
- 5.186 Ar y llaw arall, dim ond mewn cyd-destunau cyfyngedig iawn y cyfeirir at awdurdodau lleol, fel y'u diffiniwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994⁶⁸ – yn hytrach nag awdurdodau cynllunio lleol yn Neddf Cynllunio

⁶⁸ Gweler Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 336.

Gwlad a Thref 1990, fel arfer y tu hwnt i brif gynllun y Deddfau cynllunio.⁶⁹ Ni ddylai'r cyfeiriadau hyn at awdurdodau lleol gael eu trosi'n syml yn gyfeiriadau at "awdurdodau cynllunio lleol" pan gaiff y darpariaethau dan sylw eu hymgorffori yn y Cod Cynllunio.

- 5.187 Fodd bynnag, nodwyd gennym, pan gyflwynwyd system unedol o lywodraeth leol yn yr Alban, yn 1974, disodlwyd y term awdurdod cynllunio lleol gan awdurdod cynllunio.⁷⁰ Awgrymwyd gennym fod hyn yn newid buddiol i bob golwg, gan ei fod yn ei gwneud yn gliriach nad awdurdod lleol fyddai awdurdod cynllunio bob amser – yn ogystal â bod yn derm symlach (a byrrach). Nodwyd gennym hefyd fod pob "awdurdod cynllunio lleol" hefyd yn "awdurdod cynllunio mwynau" – felly nid oes angen yr ymadrodd hwnnw ychwaith.
- 5.188 Mae'n wir bod nifer o statudau heblaw'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio hefyd yn cyfeirio at awdurdodau cynllunio lleol.⁷¹ Byddai'n gymharol syml i'r rheiny gael eu diwygio felly.
- 5.189 Felly awgrymwyd gennym y dylid defnyddio'r term "awdurdod cynllunio" yn lle "awdurdod cynllunio lleol" ac "awdurdod cynllunio mwynau".
- 5.190 Ymatebodd 44 o ymgyngoreion i'r cwestiwn hwn; yr oedd 33 ohonynt yn cytuno; Roedd dau yn ansicr; ac roedd pedwar yn anghytuno. Meddai Cyngor Sir Caerfyrddin: "stick with Local Planning Authorities – shows they are 'local' bodies, not national etc." Awgrymodd CBS Pen-y-Bont ar Ogwr y dylid cadw'r term presennol er parhad ac er mwyn gwahaniaethu rhwng y corff sy'n gyfrifol am y swyddogaeth cynllunio ar lefel leol ac unrhyw gyrff sy'n gyfrifol am gynllunio strategol yn y dyfodol. O ran y pwynt olaf, nid oeddem yn awgrymu unrhyw newid i'r term "panel cynllunio strategol", sy'n gyfrifol am lunio cynlluniau datblygu strategol.⁷²
- 5.191 Credwn o hyd y byddai'r term "awdurdod cynllunio" fel yn yr Alban, yn symlach – ond yn amlwg ni fyddai newid o'r fath yn newid sylwedd y ddeddfwriaeth o gwbl.

⁶⁹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 178, 190, 207, 219.

⁷⁰ Deddf Llywodraeth Leol (yr Alban) 1973, a 172(2).

⁷¹ Mae'r ymadrodd "awdurdod cynllunio lleol" yn digwydd mewn 21 o statudau eraill sy'n ymwneud â'r amgylchedd a llywodraeth leol neu statudau cysylltiedig (y mae dim ond traean ohonynt yn gymwys yng Nghymru), y bydd angen i'r rhan fwyaf ohonynt, os nad pob un, gael eu diwygio o ganlyniad i gyflwyno'r Cod Cynllunio sut bynnag – Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, Deddf Cefn Gwlad 1968, Deddf Digolledu Tir 1961, Deddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol, Deddf yr Amgylchedd 1994, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Deddf yr Amgylchedd 1995, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, Deddf Cymdogaethau Glân [etc] 2005, Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2016 – ac unwaith neu ddwy mewn tua 35 o statudau eraill. Mae'r ymadrodd hefyd yn digwydd mewn 50 o statudau eraill, sy'n gymwys yn Lloegr neu yn yr Alban yn unig, ond nid fyddai angen eu diwygio.

⁷² Gweler y Papur Ymgynghori, paragraffau 6.19 i 6.21.

Argymhelliad 5-13.

Argymhellwn y dylid defnyddio'r term "awdurdod cynllunio" yn y Bil Cynllunio yn lle'r term "awdurdod cynllunio lleol" ac "awdurdod cynllunio mwynau" a ddefnyddir mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd.